Home Office
Swyddfa Gartref
ADEILADU CYMDEITHAS DDIOGEL,
GYFIAWN A GODDEFGAR

# Casgliadau cyhoeddus
## AT DDIBENION ELUSENNOL, LLESOL A DYNGAROL

Papur ymgynghorol ar
**Gynigion am gynllun trwyddedu newydd awdurdod lleol**

Medi 2003

# Cynnwys


Crynodeb gweithredol 5

Cyflwyniad 9

**Adran 1:**
Strwythur y cynllun 12

**Adran 2:**
Gweithredu'r cynllun gan awdurdodau lleol 20

**Adran 3:**
Y gofynion a osodir ar drefnwyr casgliadau 26

Holiadur i ymatebwyr 30

**Atodiad A:**
Asesiad Effaith Reoliadol Rhannol 37

# Rhagair

Mae cadw ffydd a hyder y cyhoedd yn y sector elusennol yn hanfodol os yw'r sector am gyflawni ei botensial llawn fel grym er lles mewn cymdeithas. Ystyrir bod elusennau'n cael eu gyrru gan werth ac o ganlyniad, mae'r cyhoedd yn tueddu i fod â disgwyliadau arbennig o uchel ohonynt. Mae lefelau ffydd yn y sector yn gyffredinol yn uchel. Fodd bynnag, nododd Arolwg yr Uned Strategaeth "Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus" mai un o'r meysydd yr oedd gan y cyhoedd rai pryderon yn ei gylch oedd codi arian. Yn ei hymateb i'r Arolwg "Elusennau a Sefydliadau Nid-er-Elw: Fframwaith Cyfreithiol Modern", cydnabu'r Llywodraeth y dylid ymdrin â'r pryderon hynny. Mae incwm gwirfoddol yn elfen bwysig o gronfeydd nifer o elusennau. Byddai unrhyw leihad sylweddol yn lefel y rhoddion gan y cyhoedd yn cael effaith negyddol ar y gwaith hanfodol a wna elusennau.

Byddai system eglur a chymesur o reoli casgliadau gan y cyhoedd yn chwarae rhan bwysig o ran cadw ffydd y cyhoedd yn y sector. Ein hamcan ni yw creu fframwaith rheoliadol newydd, a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ac a fydd ar yr un pryd yn profi'n ymarferol i'r rhai sy'n gorfod gweithredu'r system. Methodd ymgais flaenorol i ddyfeisio fframwaith oherwydd y manylion gweithredol. Y tro hwn, rydym yn ymgynghori'n eang gyda'n budd-ddeiliaid ar fanylion y cynllun. Mae'r papur ymgynghorol yn mynd ar ôl argymhellion a geir yn "Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus". Mae'r papur yn gosod ein cynigion yn fanwl ac yn gwahodd eich sylwadau chi arnynt. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cymryd amser i ystyried y cynigion yn ofalus a gadael i ni gael eich barn arnynt. Rwy'n hyderus y gallwn, gyda chymorth a syniadau amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid, ddyfeisio cynllun ymarferol a chymesur, a fydd hefyd yn cadw lefelau ffydd a hyder y cyhoedd yn y sector, ac yn eu cynyddu o bosibl.

**FIONA MACTAGGART**
Is-Ysgrifenyddes Seneddol dros Gydraddoldeb Hil, Polisi Cymunedol ac Adnewyddiad Sifil

# Crynodeb gweithredol

## Pwrpas yr ymgynghoriad

Mae'r papur ymgynghorol hwn yn cynnwys cynigion am gynllun trwyddedu newydd i awdurdodau lleol ar gyfer casgliadau elusennol gan y cyhoedd a wneir o dŷ i dŷ ac yn y stryd.[1] Mae'n mynd ar ôl argymheçiad ym mhapur yr Uned Strategol 'Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus'.[2]
**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad yw 2 Rhagfyr.**

## Cefndir

Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth o ran casgliadau o dŷ i dŷ ac yn y stryd.
Mae'r ddeddfwriaeth yn anghyson, yn dameidiog, wedi dyddio ac yn gymhleth. Mae'n anodd i drefnwyr casgliadau ei deall, ac i awdurdodau lleol ei gweithredu'n effeithiol. Mae cynigion ar gyfer y cynllun newydd yn bwriadu goresgyn anawsterau y gwyddys eu bod yn bodoli yn y system bresennol.

## Amcan y cynllun trwyddedu newydd arfaethedig

Amcan cyffredinol y cynllun newydd arfaethedig yw creu system deg a chost-effeithiol o drwyddedu sy'n hwyluso codi arian cyfrifol, ond yn atal casgliadau ffug ac yn rhwystro niwsans i'r cyhoedd.

## Prif elfennau'r cynllun arfaethedig

Yn y cynllun newydd bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol drwyddedu'r holl gasgliadau elusennol cyhoeddus ac eithrio'r rhai lleol a bychain iawn, a fydd wedi eu hesgusodi. Bydd y gofynion trwyddedu yn ymestyn i geisio am ddebyd uniongyrchol, a elwir weithiau yn godi arian wyneb yn wyneb.

Ar hyn o bryd, nid yw'r gyfraith yn glir ynghylch y ffaith a oes angen trwydded ar gyfer codi arian wyneb yn wyneb ar y stryd. Yn gyffredinol, mae hynny'n golygu ei fod yn ddidrwydded, ac mae pryder efallai bod gweithgarwch mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol yn ormodol ac yn peri niwsans i'r cyhoedd.

1 Defnyddir elusennol fel llaw-fer ar gyfer elusennol, llesol a dyngarol – gweler trafodaeth ar ddiffiniad o'r term hwn yn adran 2.1.
2 Gweler y prif adroddiad yn: http://www.cabinet-office.gov.uk/innovation/2002/charity/report/download/strat-data.pdf Ac, y papur cefndir ar reoli codi arian yn: http://www.cabineofice.gov.uk/innovation/2002/charity/background/RegulationofFundraising.pdf

### Diffiniad o fan cyhoeddus

Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol yn trwyddedu casgliadau elusennol ar eiddo preifat megis cyrtiau blaen archfarchnadoedd. Mae hynny'n darparu dihangfa bosibl i'r rhai hynny sy'n dymuno osgoi gwiriadau a rheoliadau'r system drwyddedu.

Mae'r papur ymgynghorol hwn yn cynnig y dylid trwyddedu casgliadau yn y dyfodol os gwneir hynny ar ffordd gyhoeddus neu ar dir a ddefnyddir yn gyffredin gan y cyhoedd fel ffordd fawr (e.e. cyrtiau blaen archfarchnadoedd a chynteddau gorsafoedd). Mae hynny ar y sail nad yw perchnogion eiddo o'r fath yn gallu rheoli'r gweithgarwch yn rhwydd.

### Gweithredu system 'awdurdod arweiniol' yn lle gorchmynion eithrio cenedlaethol

Ar hyn o bryd, gall sefydliadau cenedlaethol wneud cais am orchmynion eithrio sy'n dileu'r angen iddynt wneud cais am drwydded leol pan fônt yn gwneud casgliadau o dŷ i dŷ. Fodd bynnag, mae'r rhain ar gael i sefydliadau cenedlaethol yn unig gyda chofnod o godi arian o dŷ i dŷ ar raddfa fawr. Y canfyddiad yw bod gorchmynion eithrio yn rhoi mantais annheg i sefydliadau o'r fath.

Y cynnig yw y dylai system awdurdod lleol 'arweiniol' newydd ddisodli gorchmynion eithrio cenedlaethol. Byddai hynny'n lleihau'r baich gweinyddol cyffredinol ar rai sy'n dymuno casglu o dŷ i dŷ ac yn y stryd mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol.

### Apeliadau yn erbyn gwrthod trwyddedau

Ar hyn o bryd, mae hawl i apelio yn erbyn gwrthod neu ddiddymu trwydded i wneud casgliad o dŷ i dŷ ond nid casgliad yn y stryd. Y ffordd gyfredol ar gyfer gwneud apeliadau yn erbyn penderfyniad i wrthod cais am drwydded casglu o dŷ i dŷ yw drwy'r Ysgrifennydd Cartref. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn cynnig y dylai bod hawl i apelio o ran y ddau fath o gasgliad ac y dylid clywed apeliadau yn y Llys Ynadon.

### Cyfrifoldeb dros drwyddedu yn Llundain

Yn Llundain ar hyn o bryd, mae Heddlu'r Metropolitan a Heddlu Dinas Llundain yn gyfrifol am drwyddedu casgliadau yn y stryd ac o dŷ i dŷ. Mae'r papur ymgynghorol yn gofyn a ddylai cyfrifoldeb dros drwyddedu yn Llundain gael ei drosglwyddo o'r heddlu i awdurdodau lleol.

## Gweithredu'r cynllun gan awdurdodau lleol

Mae llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr wedi ei strwythuro mewn dwy ffordd wahanol. Yng Nghymru, a rhannau o Loegr, mae "cyngor pob pwrpas" haen sengl yn gyfrifol am holl swyddogaethau'r awdurdod lleol. Mae gan weddill Lloegr system ddwy-haen, lle mae dau gyngor ar wahân yn rhannu cyfrifoldebau rhwng cynghorau dosbarth a chynghorau sir. Lle gweithredir system haen sengl, bydd cyfrifoldeb dros drwyddedu yn syrthio arnynt hwy. Lle gweithredir system ddwy-haen, bydd cyfrifoldeb yn syrthio ar y cynghorau dosbarth.3

3 Codwyd o ffeithlen Cymdeithasau Awdurdodau Lleol ar Strwythur Llywodraeth Leol.

Mae angen cyfarwyddyd canolog clir i awdurdodau lleol ar weithredu'r cynllun newydd er mwyn sicrhau cysondeb yn y gweithrediad hwnnw. Cynigir bod y cyfarwyddyd hwnnw yn ehangu ar y nodweddion a ddisgrifir isod.

### Y cwmpas o ddibenion / achosion elusennol, llesol a dyngarol

Cynigir bod y cynllun newydd yn ymdrin â chasgliadau at ddibenion elusennol, llesol a dyngarol. Mae awdurdodau lleol yn aml yn cael anhawster pennu a yw achosion anelusennol penodol yn gymwys fel rhai llesol a dyngarol. Byddai'r cyfarwyddyd canolog arfaethedig yn ymdrin â'r cwestiwn hwnnw.

### Cynhwysedd

Gall ardaloedd lleol, oherwydd eu gwahanol amgylchiadau, gynnal lefelau amrywiol o weithgarwch casglu. Cyfeirir at y lefel, lle mae casgliadau yn cynhyrchu elw hyfyw, fel cynhwysedd ardal drwy gydol y papur hwn.

Egwyddor y cynllun arfaethedig yw na ddylid gwrthod trwyddedau ar sail meini prawf mympwyol. Dylai awdurdodau lleol ddarparu'r cyfle mwyaf i gasgliadau cymwys ac a gynhelir yn dda, sy'n gyson â chynhwysedd lleol a chan osgoi niwsans i'r cyhoedd.

Byddai angen i awdurdodau lleol adolygu eu polisïau ar ganiatáu trwyddedau yng ngoleuni'r gofynion newydd hynny. Byddai'r cyfarwyddyd arfaethedig yn helpu i lywio'r adolygiadau hynny.

### Darparu mynediad teg

Y cynnig yw y rhoddir dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu mynediad teg at gyfleoedd casglu i bob sefydliad cymwys, hynny yw, ni ddylent ffafrio achosion neu ddulliau casglu penodol lleol dros rai cenedlaethol. Byddai'r cyfarwyddyd yn gosod y ffactorau y byddai'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau dosbarthu.

### Rhoi cyfrif o gasgliadau a derbyniadau

Trefnir nifer o gasgliadau cyhoeddus gan elusennau cofrestredig. Mae'r sefydliadau hynny eisoes yn adrodd i'r Comisiwn Elusennau. Mae'r papur ymgynghorol felly'n gofyn a ddylai fod yn ofynnol i elusennau gyflwyno derbyniadau i awdurdodau lleol ar eu gweithgarwch casglu cyhoeddus.

Byddai'r cyfarwyddyd arfaethedig yn nodi'r ffurf y derbyniadau sydd eu hangen gan sefydliadau anelusennol a sut gellid eu dilysu.

Byddai'r cyfarwyddyd arfaethedig hefyd yn ystyried:

- sut gallai awdurdodau lleol sicrhau nad yw casgliadau yn golygu niwsans i'r cyhoedd;
- pa wiriadau y dylai awdurdodau lleol eu gwneud ar gymhwyster ymgeiswyr;
- pa drefniadau a ddylai fod mewn grym i ddarparu cyswllt effeithiol rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill, gan gynnwys yr heddlu a'r Comisiwn Elusennau i sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu gwneud ar ymgeiswyr a bod eu gweithredu yn effeithiol.

## Y gofynion a osodir ar drefnwyr casgliadau

Mae'r papur ymgynghorol hefyd yn ystyried:

- y wybodaeth y byddai'n ofynnol i drefnwyr casgliadau ei chyflwyno wrth wneud cais am gymhwyster i gasglu;
- yr amddiffyniadau sylfaenol sydd eu hangen i ddiogelu elw casgliadau;
- sut gallai trefnwyr casgliadau sicrhau bod casgliadau'n addas ac yn briodol;
- cadw cofnodion a'r awdurdod lleol yn monitro.

## Asesiad Effaith Reoliadol Rhannol

**Mae Atodiad A i'r papur yn cynnwys Asesiad Effaith Reoliadol Rhannol (AERRh). Mae'n bwysig bod ymatebwyr yn ystyried y materion a godir gan y AERRh. Codir cwestiynau ar wahân yn yr AERRh a gwerthfawrogwn petaech yn cymryd amser i ystyried y rhain.**

**Ymateb i'r ymgynghoriad a'r AERRh.**

A fyddech cystal ag ymateb **erbyn dydd Mawrth, 2 Rhagfyr 2003** gan ddefnyddio'r cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost neu rif ffôn canlynol:

Mr Henry Wood
Charities Unit
Home Office
3rd Floor
Allington Towers
19 Allington Street
London SW1E 5EB

E-Bost: Henry.Wood2@homeoffice.gsi.gov.uk

Ffôn: 020 7035 5352

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **2 Rhagfyr 2003.**

# Cyflwyniad

## Pwrpas y papur ymgynghorol hwn

Mae'r papur ymgynghorol hwn yn cynnwys cynigion am gynllun trwyddedu integredig newydd ar gyfer casgliadau elusennol cyhoeddus a wneir o dŷ i dŷ ac yn y stryd. Byddai'r cynllun yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr a byddai'n cael ei gyflwyno drwy ddeddfwriaeth.

Awgrymodd adroddiad yr Uned Strategaeth 'Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus', a gyhoeddwyd fis Medi 2002, fframwaith ar gyfer cynllun trwyddedu o'r fath. Mae'r papur hwn yn:

- ymdrin â materion a godir gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar adroddiad yr Uned Strategaeth; ac
- yn mynd â chynigion yr Uned Strategaeth ar drwyddedu ymhellach, gan lenwi ychydig ar y manylion coll.

Mae wedi ei lunio i fod yn ffocws ar gyfer trafodaeth bellach â phartïon sydd â diddordeb.

Ystyriodd adroddiad yr Uned Strategaeth faterion eraill sy'n berthnasol i reoli codi arian. Er enghraifft, cynigodd sefydlu cynllun gwirfoddoli newydd i hybu arfer da o ran codi arian. Nid yw'r papur hwn yn ymdrin â'r cynnig hwnnw, a ystyrir ar wahân.

## Amcanion y cynllun trwyddedu newydd

Mae gan nifer o wahanol grwpiau ddiddordeb mewn trwyddedu casgliadau cyhoeddus, gan gynnwys rhoddwyr a'r cyhoedd, elusennau sy'n codi arian a sefydliadau gwirfoddol, awdurdodau lleol, yr heddlu, y Comisiwn Elusennau a'r Swyddfa Gartref. Mae gan bob un safbwynt gwahanol ar drwyddedu casgliadau, a gwahanol agwedd tuag at hynny o ganlyniad.

Fodd bynnag, ceir un amcan cyffredin: creu system deg a chost-effeithiol o drwyddedu sy'n cadw cydbwysedd priodol rhwng hwyluso codi arian cyfrifol ar gyfer gwaith elusennol, ac atal casgliadau ffug ac osgoi niwsans i'r cyhoedd. Fodd bynnag, dylai rheoliadau fod yn gymesur a chynigir y dylai'r casgliadau lleol lleiaf fod wedi eu heithrio o'r cynllun trwyddedu.

Mae elusennau a sefydliadau gwirfoddol yn naturiol eisiau mwy o fynediad at gyfleoedd codi arian. Ond mae angen rheoliadau i sicrhau nad yw maint y ceisiadau yn cythruddo rhoddwyr posibl nac yn gostwng derbyniadau a gesglir, ac i sicrhau'r cyhoedd bod arian yn cyrraedd achosion elusennol ar gyfer yr hyn y rhoddir hwy.

## Deddfwriaeth bresennol

Y ddeddfwriaeth bresennol a'r prif reoliadau sy'n delio â chasgliadau cyhoeddus yw:

*Casgliadau yn y stryd* – Deddf yr Heddlu, Ffatrïoedd Etc (Darpariaethau Amrywiol) 1916: ceir model o reoliadau lleol yng Ngorchymyn Casgliadau Elusennol (Darpariaethau Trosiannol) 1974, ond nid yw awdurdodau lleol yn gorfod cyflwyno system drwyddedu o'r fath yn eu hardal; a

*Casgliadau o dŷ i dŷ* – sefydlodd Deddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939 a Rheoliadau Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1947 drefn drwyddedu ganolog ar gyfer casgliadau o'r fath.

Trosglwyddodd Deddf Llywodraeth Leol 1972 gyfrifoldeb dros y ddau ddull o drwyddedu i awdurdodau lleol gan yr heddlu, ac eithrio yn Llundain lle mae cyfrifoldeb yn parhau â Heddlu'r Metropolitan a Heddlu Dinas Llundain.

Ystyriwyd mater diwygio trwyddedu casgliadau elusennol cyhoeddus o'r blaen yn y 1990au cynnar. Ymdriniodd Deddf Elusennau 1992 â rheoli codi arian, pobl sy'n codi arian yn broffesiynol a chyfranogwyr masnachol. Mae Rhan III o'r Ddeddf yn gosod trefn newydd ar gyfer trwyddedu casgliadau sy'n cynnwys casgliadau o dŷ i dŷ ac yn y stryd. Ni ddaeth Rhan III i rym erioed oherwydd mynegwyd pryderon a fyddai'n gweithio'n ymarferol.

## Strwythur y papur hwn

Mae Adran 1 yn trafod strwythur posibl am gynllun newydd.

Mae Adran 2 yn ystyried sut gallai awdurdodau lleol ei weinyddu.

Mae llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr wedi ei strwythuro mewn dwy ffordd wahanol. Yng Nghymru a rhannau o Loegr, mae "cyngor pob pwrpas" haen sengl yn gyfrifol am holl swyddogaethau'r awdurdod lleol. Mae gan weddill Lloegr system ddwy-haen, lle mae dau gyngor ar wahân yn rhannu cyfrifoldebau rhwng cynghorau dosbarth a chynghorau sir. Lle gweithredir system haen sengl, bydd cyfrifoldeb dros drwyddedu yn syrthio arnynt hwy. Lle gweithredir system ddwy-haen, bydd cyfrifoldeb yn syrthio ar y cynghorau dosbarth. Cyfeirir at y ddau gorff trwyddedu fel "awdurdodau lleol" drwy gydol y ddogfen hon.4

Cynigir y dylai'r Swyddfa Gartref roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol, a ddatblygir mewn ymgynghoriad â budd-ddeiliaid allweddol, ar weithredu'r cynllun. Byddai angen cyfarwyddyd canolog clir i sicrhau cysondeb priodol wrth weithredu.

Mae Adran 3 yn trafod y gofynion y gellid eu gosod ar y rhai sy'n trefnu casgliadau.

Mae holiadur i atebwyr, ar ddiwedd y ddogfen, yn dod â'r prif gwestiynau a godir yn y papur ymgynghorol ynghyd. Fe'i lluniwyd â'r bwriad o'i gwneud yn haws i chi ymateb.

4 Codwyd o ffeithlen Cymdeithasau Awdurdodau Lleol ar Strwythur Llywodraeth Leol.

Ceir Asesiad Effaith Reoliadol Rhannol yn Atodiad A i'r ddogfen hon.
Mae'n codi rhagor o gwestiynau am effaith rheoliadau a gwerthfawrogwn pe bai atebwyr yn gallu rhoi ymatebion i'r cwestiynau hyn hefyd.

## Ymateb i'r ymgynghoriad a'r AERRh

Mae eich sylwadau ar y papur ymgynghorol a'r AERRh ynghlwm yn Atodiad A yn bwysig iawn. Byddant yn helpu i sicrhau y datblygir cynllun ymarferol.

A fyddech cystal ag ymateb gan ddefnyddio'r cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost neu rif ffôn canlynol:

Mr Henry Wood
Charities Unit
Home Office
Allington Towers
19 Allington Street
London SW1E 5EB

Ffôn: 020 7035 5352
E-Bost: Henry.Wood2@homeoffice.gsi.gov.uk

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw dydd Mawrth, 2 Rhagfyr 2003.**

# ADRAN 1:

# Strwythur y cynllun

Mae'r adran hon yn edrych ar brif elfennau o strwythur y cynllun arfaethedig.

## 1. Statws y drefn drwyddedu

Mae deddfwriaeth ar wahân yn rheoli casgliadau o dŷ i dŷ ac yn y stryd ar hyn o bryd (gweler y cyflwyniad). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn anghyson. Un gwahaniaeth mawr yw tra bo'n ofynnol i awdurdodau lleol drwyddedu casgliadau o dŷ i dŷ, nid yw'n ofynnol iddynt drwyddedu casgliadau yn y stryd. Er yr amcangyfrifir bod tua 80% o awdurdodau lleol yn trwyddedu casgliadau yn y stryd, mae'r gwahaniaeth hwnnw yn un o nifer sy'n gwneud y system yn gymhleth ac yn anodd i drefnwyr casgliadau neu drefnwyr posibl ei deall.

Mae anghysondebau pwysig eraill rhwng deddfwriaeth casgliadau o dŷ i dŷ ac yn y stryd, gan gynnwys:

- gwahaniaethau mewn dehongli o ran yr angen am drwyddedu deisyfu ymrwymiadau debyd uniongyrchol (a eglurir ymhellach yn 2. isod);
- mae gorchmynion eithrio cenedlaethol sy'n dileu'r angen am asesiadau lleol cymhwyster i gasglu ar gael ar gyfer casgliadau o dŷ i dŷ yn unig (a eglurir ymhellach yn 5. isod);
- mae hawl apelio ffurfiol dim ond yn erbyn penderfyniadau awdurdodau lleol i wrthod neu ddiddymu trwydded casglu o dŷ i dŷ yn unig;
- mae'n rhaid trwyddedu pob casgliad yn y stryd yn unigol a rhoi adroddiad ar y casgliad sy'n creu baich gweinyddol trwm i sefydliadau sy'n casglu'n aml.

Argymhellodd yr Uned Strategaeth gynllun trwyddedu integredig newydd ar gyfer casgliadau cyhoeddus at ddibenion elusennol i ymdrin â'r prif broblemau sy'n codi â'r system gyfredol. Dan y cynllun newydd arfaethedig, ni ellid cynnal casgliad elusennol cyhoeddus yn gyfreithlon (ac eithrio rhai bychain a lleol a allai fod wedi eu heithrio – gweler 4. isod) heb drwydded gan awdurdod lleol.

*A yw'r cynnig i greu cynllun trwyddedu integredig newydd yn un da mewn egwyddor?*

## 2. Y gweithgarwch sy'n cael ei gynnwys gan y cynllun newydd arfaethedig

Mae'r ddeddfwriaeth o dŷ i dŷ yn diffinio casgliad fel apêl i roi arian neu eiddo arall, ai am gydnabyddiaeth neu beidio. 1 Mae'r ddeddfwriaeth casglu yn y stryd yn berthnasol i gasglu arian neu werthu eitemau er budd dibenion elusennol neu

1 Deddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939, Adran 11.

ddibenion eraill nad ydyw'n ffordd gyffredin o fasnachu. 2 Felly tra cytunir yn gyffredinol bod angen trwydded ar gyfer casglu ymrwymiadau debyd uniongyrchol o dŷ i dŷ, mae peth amheuaeth a oes ar yr un gweithgarwch angen hyn pan wneir hynny yn y stryd.

Cynigodd adroddiad yr Uned Strategaeth gynllun trwyddedu sengl i ymdrin â chasgliadau cyhoeddus, lle awgrymir bod ychydig neu'r cyfan o'r derbyniadau yn mynd at achos elusennol. Dim ond y casgliadau lleol bychain ddylai gael eu heithrio. Byddai'r cynllun yn berthnasol pe bai'r derbyniadau yn cynnwys:-

- arian neu rywbeth cyfwerth ag arian, er enghraifft, trosglwyddiadau electronig o bosibl yn y dyfodol;
- nwyddau; a / neu
- mrwymiadau debyd uniongyrchol.

Bwriad yr Uned Strategaeth yw y dylai'r cynllun trwyddedu fod yn berthnasol hefyd lle gwerthir nwyddau a lle cyflwynir yr un achos.

Er mwyn tegwch, mae'r cynnig hwn yn bwriadu sicrhau mwy o gysondeb wrth ymdrin â gwahanol ddulliau casglu. Mae hefyd yn bwriadu osgoi gormod o gasglu a allai gythruddo'r cyhoedd.

Mae dulliau codi arian yn newid ac yn datblygu dros amser. Er enghraifft, ni ragwelwyd deisyfu debyd uniongyrchol (neu godi arian wyneb yn wyneb) pan ddrafftiwyd y ddeddfwriaeth gyfredol sy'n rheoli casgliadau o dŷ i dŷ ac yn y stryd. Bydd yn bwysig felly fframio'r ddeddfwriaeth mewn modd lle ymdrinnir â ffurfiau newydd o ernes.

*A oes angen trwydded i godi arian wyneb yn wyneb? Beth fyddai prif ganlyniadau newid o'r fath i awdurdodau lleol a sefydliadau codi arian?*

## 3. Diffiniad o fan cyhoeddus

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn cynnwys casgliadau mewn mannau cyhoeddus, ond ni ddiffinnir man cyhoeddus yn y ddeddfwriaeth. Mae cyfraith achosion yn diffinio man cyhoeddus fel unrhyw fan y mae gan unrhyw adran o'r cyhoedd fynediad iddi, ar ôl talu neu beidio, fel hawl neu drwy rinwedd caniatâd eglur neu ddealledig. 3 Byddai'r diffiniad hwnnw yn cynnwys nid yn unig canolfannau siopa a gorsafoedd rheilffordd, ond digwyddiadau y mae angen tocyn ar eu cyfer, megis cyngherddau neu arddwestau. Deellir nad yw awdurdodau lleol, yn gyffredinol, wedi gofyn i gasgliadau ar eiddo o'r fath neu mewn amgylchiadau o'r fath fod wedi eu trwyddedu.

Byddai Rhan III o Ddeddf 1992 wedi cynnwys casgliadau mewn gorsafoedd, meysydd awyr, canolfannau siopa neu unrhyw eiddo tebyg arall. 4 Cynigodd adroddiad yr Uned Strategaeth na ddylai'r cynllun trwyddedu fod yn berthnasol i gasgliadau ar eiddo o'r fath, ond mae'r cynnig hwnnw wedi profi'n un dadleuol.

2 Deddf yr Heddlu, Ffatrïoedd (Darpariaethau Amrywiol) 1916 Adran 5.
3 Cf DPP v Vivier (1991).
4 Adran 65(2)(b) ac adran 65 (9)(b).

Y cynnig newydd felly yw y dylid diffinio man cyhoeddus fel man y mae gan y cyhoedd fynediad digyfyngiad iddi, sy'n golygu, er enghraifft, nad yw'n ofynnol iddynt gael tocyn i gael mynediad. Er mwyn osgoi niwsans i'r cyhoedd a gwarchod rhag codi arian ffug, dylai casgliadau at ddibenion elusennol fod wedi eu trwyddedu os gwneir hynny fel a ganlyn:

- ar ffordd gyhoeddus neu ar dir a ddefnyddir yn gyffredin gan y cyhoedd fel ffordd fawr;
- drwy ymweliadau o dŷ i dŷ (gan gynnwys o dafarn i dafarn, o swyddfa i swyddfa neu o siop i siop).

Mae hynny'n awgrymu diffiniad eang o fan cyhoeddus sy'n cwmpasu rhannau'r ffordd sydd â pherchnogion preifat, rhannau cyffredin o ganolfannau siopa, cyrtiau blaen archfarchnadoedd a chynteddau gorsafoedd rheilffordd, hynny yw, eiddo preifat lle nad ydyw'n glir y byddai'r perchennog yn gwybod am weithgarwch casglu / yn gallu ei reoli'n rhwydd.

Ni fyddai trwyddedu yn ymestyn i gasgliadau:

- mewn siopau;
- ar eiddo sefydliadau elusennol (gan gynnwys eglwysi ac ysgolion);
- yn ystod digwyddiadau sydd wedi eu hanelu'n bennaf at godi arian at ddibenion elusennol.

Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am yr eiddo neu'r digwyddiad allu rheoli'r casgliadau hynny yn rhwydd. Hefyd, byddai eu trwyddedu yn feichus i awdurdodau lleol.

Byddai casgliadau ar eiddo preifat y mae gan y cyhoedd fynediad rhwydd iddo, fel sydd yn awr, yn gofyn am ganiatâd y perchennog.

*A ddylai'r diffiniad o 'fan cyhoeddus' gynnwys eiddo preifat y mae gan y cyhoedd fynediad rhwydd iddo? Os derbynnir y diffiniad hwnnw, a ddylid gwneud eithriadau, ac os felly, a yw'r rhai a gynigir yn rhai cywir?*

## 4. A ddylai casgliadau lleol bychain gael eu heithrio?

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â chasgliadau o dŷ i dŷ yn caniatáu i'r heddlu gymeradwyo casgliad lleol dros dro y tu allan i'r rheoliadau trwyddedu arferol.5 Yn ymarferol, defnyddir hynny'n fwyaf cyffredin i eithrio casgliadau gan gantorion carolau yn ystod y Nadolig.

Yn aml, mae trefnwyr digwyddiadau o'r fath eisoes yn cysylltu â'u hawdurdod lleol yn y lle cyntaf ac yna'n cael eu cyfeirio ganddynt hwy at yr heddlu.

Cynigodd yr Uned Strategaeth y byddai'r awdurdod lleol, dan y cynllun newydd, yn rhoi caniatâd i gasgliadau lleol bychain iawn gael eu cynnal y tu allan i reoliadau trwyddedu arferol. Yr ofn yw y byddai gofynion trwyddedu yn cymell pobl rhag cymryd rhan mewn gweithgarwch codi arian ar raddfa fechan neu ad hoc ac y

5 Deddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939, adran 1 (4).

byddai'n ormod o faich i awdurdodau lleol. Mae gweithgarwch o'r fath yn golygu risg isel oherwydd fe'i gwneir yn gyffredinol ymysg pobl sy'n adnabod ei gilydd ac yn gwybod am yr achos maent yn casglu ar ei gyfer. Dylai'r rheoliadau fod yn gymesur â'r risg.

Gellir diffinio casgliad lleol, bach fel casgliad unwaith-yn-unig o nwyddau neu arian dros ardal ddaearyddol fechan (er enghraifft, o dŷ i dŷ mewn un ward awdurdod lleol) neu gasgliad ad hoc bach ar un set o eiddo. Y bwriad yw eithrio'r casgliadau lleiaf gan gynnwys:

- casglu nwyddau ar gyfer ffeiriau eglwysi;
- canu carolau;
- un casgliad ad hoc bach er enghraifft, mewn un tafarn.

Y cynnig yw y byddai'n ofynnol i drefnwyr casgliadau o'r fath gysylltu â'r awdurdod lleol ond ni fyddent yn agored i ofynion arferol y cynllun trwyddedu. Gallai'r awdurdod lleol gynghori ar reoliadau priodol o ystyried natur a graddfa'r casgliad.

*A ddylai casgliadau lleol bychain gael eu heithrio? Sut dylid eu diffinio orau?*

## 5. Gweithredu model 'awdurdod arweiniol' yn lle gorchmynion eithrio cenedlaethol

Ar hyn o bryd, mae gorchmynion eithrio cenedlaethol, sy'n dileu'r angen am asesiadau cymhwyster lleol i gasglu, ar gael ar gyfer casgliadau o dŷ i dŷ:

"Pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod yr unigolyn yn dilyn pwrpas elusennol ledled Cymru neu Loegr i gyd, neu ran sylweddol ohonynt ac yn awyddus i hyrwyddo casgliadau at y diben hwnnw".6

Mae 43 o sefydliadau codi arian yn dal gorchmynion eithrio cenedlaethol ar hyn o bryd. Mae'r rhain ar gael yn gyffredinol i sefydliadau sydd wedi cael trwyddedau casglu o dŷ i dŷ mewn o leiaf 70-100 o ardaloedd awdurdodau lleol trwyddedu am y ddwy flynedd flaenorol.

Cynigodd adroddiad yr Uned Strategaeth ddiddymu gorchmynion eithrio cenedlaethol. Ymddengys eu bod yn rhoi mantais annheg i sefydliadau cenedlaethol dros rai lleol, llai eu maint. Dadleuodd yr adroddiad, o ystyried y gofynion presennol i gysylltu ag awdurdodau lleol unigol ynghylch dyddiadau a lleoliadau casglu, na ddylai diddymu osod baich gormodol ar drefnwyr casgliadau nac awdurdodau lleol.7

6 Deddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939, adran 3 (1).

7 Dywed y cyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr am orchmynion eithrio cenedlaethol y dylai sefydliadau â gorchmynion gysylltu ag awdurdodau lleol ynghylch dyddiadau a safleoedd casglu. Mae'n egluro efallai na chaniateir i sefydliadau gasglu dan y gorchymyn os ydynt yn torri'r cyfarwyddyd yn gyson. Mae côd y Sefydliad dros Godi Arian ar gasglu o dŷ i dŷ, sy'n orfodol i'w haelodau, hefyd yn nodi fod yn rhaid i drefnwyr sydd â gorchmynion eithrio ddweud wrth awdurdodau lleol ymhle a phryd maent yn bwriadu casglu.

Nid yw'r cynnig i ddiddymu gorchmynion eithrio cenedlaethol yn dderbyniol gan bawb. Mae rhai elusennau a sefydliadau gwirfoddol sydd â gorchmynion ar hyn o bryd, wedi dadlau y bydd diddymu yn cynnydd yn eu costau gweinyddu. Byddai unrhyw newid i'r system yn gorfod ceisio lleihau'r baich gweinyddol yn gyffredinol i drefnwyr casgliadau ac awdurdodau lleol.

Y bwriad yw gweithredu system 'awdurdod arweiniol' newydd yn lle gorchmynion eithrio cenedlaethol. Byddai trefnydd y casgliad yn enwebu awdurdod lleol arweiniol o blith y rhai hynny mae'n dymuno casglu yn eu hardaloedd. Byddai'r awdurdod lleol arweiniol hwn yn gwneud y gwiriadau angenrheidiol ac yn pennu a yw'n ofynnol cael trwydded ar gyfer y gweithgarwch arfaethedig / a yw'n gymwys am drwydded (gweler 4. hefyd yn yr adran nesaf). Pe bai'r casgliad arfaethedig yn gymwys, yr unig sail i unrhyw awdurdod lleol wrthod trwydded fyddai pe na bai eu hardal â'r lle i gynnal y gweithgarwch casglu arfaethedig (gweler 2. hefyd yn yr adran nesaf).

Mae gan y cynnig "awdurdod arweiniol" hwn fanteision mawr dros y system gyfredol o orchmynion eithrio cenedlaethol. Byddai'r dewis o enwebu awdurdod arweiniol ar gael i bob sefydliad / unigolyn sy'n dymuno casglu mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol yn hytrach na chael eu cyfyngu i sefydliadau cenedlaethol â hanes mewn codi arian o dŷ i dŷ ar raddfa fawr.

*A groesewir y cynnig am awdurdodau arweiniol a beth fyddai'r effaith ar gynghorau dosbarth? Beth yw manteision ac anfanteision y cynnig?*

## 6. Ceisiadau am drwydded a hwyluso casglu nwyddau

Y cynnig a nodir uchod yn ei hanfod yw y byddai awdurdodau arweiniol yn rhoi tystysgrif cymhwyster i drefnwyr casgliadau ar gyfer y gweithgarwch casglu arfaethedig yn y cais. Ond, byddai angen i drefnwyr gadarnhau bod gan eu hardal y lle i gynnal y gweithgarwch â phob awdurdod lleol unigol o hyd. Byddai trwydded i gasglu, sy'n para rhwng blwyddyn a deunaw mis, yn cael ei rhoi pan fo awdurdod lleol yn rhoi caniatâd i'r sefydliad gasglu ar ddyddiau arbennig ac mewn lleoliadau penodol yn ei ardal. Fodd bynnag, mae'n bosibl yr ymdrinnir yn wahanol â chasglu nwyddau.

Fel arfer, mae'r rhai hynny sy'n trefnu casglu arian yn y stryd yn cynllunio ddigon ymlaen llaw ac felly, dylent allu nodi mewn ceisiadau am drwydded y lleoliadau a'r amser y cynhelir y gweithgarwch. Fodd bynnag, cesglir nwyddau ar gyfer siopau elusen ar fyr rybudd pan fo stoc wedi mynd yn isel. Y cynnig yw y gellid caniatáu trwyddedau ar gyfer casglu nwyddau heb i'r trefnydd orfod nodi dyddiadau a lleoliadau casglu. Gwneir y cynnig hwnnw ar y sail nad yw casgliadau o'r fath (o'u cyferbynnu â chasgliadau am arian ac ymrwymiadau debyd uniongyrchol naill ai o dŷ i dŷ neu yn y stryd) yn ymddangos fel petaent yn codi materion cynhwysedd. Hynny yw, nid ydym wedi gweld tystiolaeth bod y cyhoedd yn teimlo'u bod yn cael eu plagio gan nifer o geisiadau i roi nwyddau.

Er hynny, mae angen rheoli'r casgliadau hynny. Mae tystiolaeth o gamarfer gan gyfranogwyr masnachol sy'n honni eu bod yn codi arian at achosion elusennol drwy gasglu nwyddau ac nid ydynt yn datgan mai dim ond cyfran fechan iawn o'r elw a

roddir i achosion o'r fath (gweler 7. o adran 2 y papur hwn). Mae tystiolaeth hefyd bod rhai sefydliadau diegwyddor yn casglu yn llwyr at ddibenion masnachol tra bônt yn awgrymu y bydd peth budd elusennol a dyngarol. Nid oes angen i awdurdodau lleol allu monitro'r gweithgarwch. O ganlyniad, efallai y bydd yn ofynnol i sefydliadau sy'n rhoi cais am drwydded i gasglu nwyddau, roi gwybodaeth am raddfa eu gweithgarwch casglu arfaethedig, gan gynnwys bras leoliadau a'r mynychder tebygol. Ac, efallai y bydd yn ofynnol iddynt roi gwybod i'r awdurdod lleol o dro i dro pe baent am wyro'n sylweddol o'r cynlluniau hyn.

*A yw'r cynnig i wahaniaethu rhwng trefniadau gweinyddol ar gyfer casglu nwyddau yn un synhwyrol? A yw'n wir nad yw casglu nwyddau yn codi materion cynhwysedd (hyd yn oed pan wneir hynny ochr yn ochr â chasglu arian ac ymrwymiad debyd uniongyrchol o ddrws i ddrws)?*

## Apeliadau yn erbyn gwrthod trwyddedau

Dan y ddeddfwriaeth bresennol, ceir hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol i wrthod trwydded casglu o dŷ i dŷ i sefydliad neu i ddiddymu trwydded o'r fath. Nid oes hawl apelio cyfatebol mewn achos casgliadau yn y stryd. Dyma un o'r prif anghysonderau yn y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn ymdrin â'r anghysondeb hwnnw ac yn awgrymu hawl apelio o ran y ddau fath o gasglu.

Y ffordd gyfredol o apelio mewn achos casgliadau o dŷ i dŷ yw drwy'r Ysgrifennydd Cartref. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn cynnig y dylai bod hawl i apelio o ran y ddau fath o gasgliad ac y dylid clywed apeliadau yn y Llys Ynadon. Byddai hynny'n gwneud y broses apelio yr un fath â'r hyn sy'n digwydd o ran ceisiadau am drwyddedau eraill.

*A oes unrhyw reswm pam na ddylai'r broses apelio fod yr un fath ar gyfer y ddau fath o gasglu?*

*A oes unrhyw ddadleuon dros beidio â gwneud y Llys Ynadon yn llwybr apêl?*

## 7. Cyfrifoldeb dros drwyddedu casgliadau elusennol cyhoeddus yn Llundain

Yn Llundain ar hyn o bryd, mae Heddlu'r Metropolitan a Heddlu Dinas Llundain yn gyfrifol am drwyddedu casgliadau o dŷ i dŷ ac yn y stryd. Ni wnaeth papur yr Uned Strategaeth ystyried yn benodol drosglwyddo cyfrifoldeb oddi wrth yr heddlu i awdurdodau lleol yn Llundain, ond byddai hynny'n ddewis.

Awgrymodd Rhan III o Ddeddf 1992 drosglwyddo cyfrifoldeb o'r fath. Fodd bynnag, roedd hynny'n ddadleuol oherwydd y nifer mawr o sefydliadau sy'n trefnu casgliadau yn y stryd ar draws nifer o fwrdeistrefi Llundain. Fodd bynnag, dylai awgrym yr awdurdod arweiniol oresgyn y prif anawsterau sy'n gysylltiedig â newid o'r fath (gweler 5. uchod).

*A ddylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am drwyddedu casgliadau cyhoeddus yn Llundain oddi wrth yr heddlu i'r awdurdodau lleol?*

8 Part III of the Charities Act 1992 has not been bought into force.

## 8. Cosbau am anufudd-dod

Cynigir y byddai'r cynllun newydd yn darparu sancsiynau am anufudd-dod. Mae'r sancsiynau yn adeiladu ar y rhai a ddarperir ar hyn o bryd gan Ddeddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939 a Rhan III o Ddeddf Elusennau 1992,8 ac eithrio rhif 6 isod a fyddai'n drosedd newydd. Nid yw Rhan III o Ddeddf Elusennau 1992 wedi dod i rym.

Bydd unrhyw un a geir yn euog o drosedd yn agored i gollfarn ddiannod i ddirwy. Y troseddau a'r uchafgosbau cysylltiedig fyddai:

1. **Trefnu casgliad heb drwydded / caniatâd gan yr awdurdod lleol (Adran 1 (2) o Deddf 1939 ac Adran 66 o Ddeddf 1992).**
   *Dirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol (uchafswm o £5,000).*
2. **Casglu heb drwydded / caniatâd gan yr awdurdod lleol (Adran 1(3) o Ddeddf 1939).** *Dirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol (uchafswm o £1,000).*
3. **Defnydd heb awdurdod o ddogfennau/bathodynnau (Adran 5 o Ddeddf 1939 ac Adran 74(1) o Ddeddf 1992).** *Dirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol (uchafswm o £5,000).*
4. **Rhoi gwybodaeth ffug at ddibenion y Ddeddf (Adran 8(6) o Ddeddf 1939 ac Adran 74(3) o Ddeddf 1992).**
   *Dirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol (uchafswm o £5,000).*
5. **Torri'r gofynion o ran: ddefnyddio bathodynnau yn y ffordd a ragnodwyd; cyflwyno bathodynnau, tystysgrifau ar gais; peidio â gadael i bobl dan oedran penodol gasglu (Adran 73(2) a (3) o Ddeddf 1992).**
   *Dirwy heb fod yn fwy na lefel 2 ar y raddfa safonol (uchafswm o £500).*
6. **Torri'r gofynion o ran cadw cofnodion penodol / cyflwyno adroddiadau (byddai hon yn drosedd newydd).**
   *Dirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol (uchafswm o £1,000).*

Yn gyffredinol, cynigir bod y lefelau dirwy uchafswm yn cynyddu o'r lefelau a ddarperir gan Ddeddf Elusennau 1992. Dylai'r lefelau dirwy uchafswm atal anufudd-dod, ond penderfyniad y llys fydd dedfrydu yn ôl amgylchiadau'r achos, gan gynnwys unrhyw ffactorau cythruddol neu liniarol.

Ni chynigir y byddai trosedd penodol yn ymwneud â ffugio dogfennau a / neu fathodynnau. Byddai trosedd o'r natur honno yn cael ei gynnwys gan y gyfraith ar ffugio a ddarperir gan Ddeddf Ffugio a Drwgfathu 1981.

*A ydych chi'n ystyried y dylid ychwanegu unrhyw droseddau at y rhestr uchod, neu ddileu unrhyw rai ohonynt? Rhowch eich rhesymau.*

## 9. Costau cyfredol gweinyddu'r system

Nid oes llawer o wybodaeth diweddar ar gael yn ganolog i elusennau nac awdurdodau lleol, ac yn Llundain, yr heddlu, ynghylch costau gweinyddu systemau presennol. Byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am y systemau presennol ac arfaethedig.

*Pa wybodaeth sydd gan elusennau ac awdurdodau lleol y gallent drefnu iddi fod ar gael i ni heb ormod o drafferth?*
*Beth yw cost gweinyddu'r system bresennol?*
*Pa gostau/arbedion ychwanegol a ragwelir dan y system arfaethedig?*
*Croesewir amcangyfrifon o'r costau/arbedion ariannol.*

## 10. Codi am ddosbarthu trwyddedau

Mewn rhai meysydd trwyddedu eraill sydd gan awdurdodau lleol, fe godir tâl. Ar hyn o bryd, nid oes gan awdurdodau lleol bŵer i godi tâl ar sefydliadau am ddosbarthu trwyddedau o ran casgliadau elusennol. Nodwyd ar adegau yn y gorffennol y dylai awdurdodau fod â phŵer o'r fath. Er mwyn iddo fod yn fuddiol, mae trafodaethau mwy diweddar wedi nodi y byddai'n rhaid gosod prisiau ar lefel a fyddai'n annerbyniol i elusennau, ac felly nid aethpwyd ar ôl y mater. Nid yw'r ddogfen hon yn awgrymu codi am drwyddedau.

*A yw'r farn gyffredin yn parhau na ddylid codi tâl?*

ADRAN 2:

# Gweithredu'r cynllun newydd gan yr awdurdod lleol

Y cynnig yw y dylai'r Swyddfa Gartref roi cyfarwyddyd clir ynghylch sut dylai awdurdodau lleol weithredu'r cynllun. Byddai'r cyfarwyddyd, a fyddai'n cael ei gefnogi gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, yn ceisio:

- ymdrin â materion / cwestiynau y mae awdurdodau lleol yn eu cael yn anodd;
- annog gweithredu'r cynllun yn effeithiol;
- sicrhau mwy o gysondeb yn ymarferol.

Mae'r adran honno o'r papur yn ystyried materion y dylai'r cyfarwyddyd arfaethedig ymdrin â hwy:

## 1. Cwmpas dibenion / achosion 'elusennol, llesol a dyngarol'

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn cynnwys casgliadau ar gyfer dibenion elusennol, llesol a dyngarol. Cynigir y byddai'r cynllun newydd yn defnyddio'r un diffiniad o ddibenion cymwys. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol yn adrodd eu bod yn cael anawsterau pennu a oes angen trwyddedau ar gyfer casgliadau penodol oherwydd eu bod yn aneglur o ran cwmpas y diffiniad.

Mae'n amlwg bod casgliadau a wneir ar gyfer sefydliadau sydd wedi eu cofrestru â'r Comisiwn Elusennau, neu a gydnabyddir yn elusennol gan Gyllid y Wlad, o fewn y cwmpas. Fodd bynnag, mae casgliadau at ddibenion anelusennol yn anos. Er enghraifft, a yw casgliad er mwyn galluogi plentyn i gael mynediad at driniaeth feddygol arloesol dramor, yn llesol neu'n ddyngarol? Mae peth amheuaeth hefyd ynghylch y ffaith a yw ceisiadau am nawdd a wneir o dŷ i dŷ, ar gyfer sefydliadau neu achosion elusennol, yn dod o dan y cwmpas. Yn yr un modd, a yw casgliad tuag at gostau trip ysgol yn elusennol, yn llesol neu'n ddyngarol? Byddai'r cwestiynau hynny, ac eraill tebyg, yn cael eu hystyried yn y cyfarwyddyd arfaethedig ar gyfer awdurdodau lleol.

*Sut dylid diffinio llesol a dyngarol orau? A yw casgliadau sydd o fudd i unigolyn, neu lle mae elfen sylweddol o fudd preifat, yn llesol neu'n ddyngarol?*

## 2. Cynhwysedd

Oherwydd bod amgylchiadau mewn ardaloedd awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr, mae gwahanol ardaloedd yn gallu cynnal gwahanol lefelau o weithgarwch casglu. Os caniateir gormod o gasglu, ni fyddai casgliadau yn cynhyrchu elw hyfyw, ac fe allai achosi niwsans i'r cyhoedd yn ogystal.

Mae gwahanol awdurdodau lleol yn cymryd agwedd wahanol iawn at ganiatáu casgliadau, er enghraifft mewn perthynas â nifer y dyddiau mewn wythnos y caniateir casglu yn y stryd (yn amrywio o ddiwrnod i chwech neu saith). Gellid egluro hyn yn rhannol gan wahaniaethau mewn cynhwysedd yn lleol. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, gall fod trefniadau wedi eu pennu gan yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol, heb archwiliad nac arolwg. Efallai eu bod yn canolbwyntio ar un amcan (e.e. osgoi niwsans) heb roi'r un pwys ar amcanion eraill (e.e. mwyhau incwm elusennol, yn gyson ag ymddygiad derbyniol).

Egwyddor sylfaenol y cynllun arfaethedig yw na wrthodir ceisiadau am drwyddedau ar sail meini prawf mympwyol. Er enghraifft, ni ddylai awdurdodau lleol gyfyngu gweithgarwch casglu i ddiwrnod neu un lleoliad, yn syml ar y sail ei bod yn anghyfleus yn weinyddol, os oes gan yr ardal fwy o gynhwysedd.

Byddai angen i awdurdodau lleol felly adolygu eu polisïau ar ganiatáu trwyddedau i sicrhau eu bod yn darparu'r cyfle mwyaf ar gyfer casgliadau cymwys a threfnus, yn gyson â chynhwysedd lleol. Byddai angen datblygu cyfarwyddyd canolog clir i lywio'r adolygiadau hynny.

*Sut gallai awdurdodau lleol bennu orau y cynhwysedd lleol i gasglu? Pa feini prawf / tystiolaeth dylent eu hystyried wrth asesu cynhwysedd (gweler 6. hefyd yn yr adran flaenorol sy'n awgrymu nad yw casglu nwyddau o dŷ i dŷ yn codi materion cynhwysedd)?*

## 3. Darparu mynediad teg i gasgliadau cenedlaethol a lleol ac i'r amrywiaeth eang o achosion elusennol

Un o egwyddorion y cynllun arfaethedig newydd yw y byddai pob cais cymwys am drwydded yn cael ei ganiatáu, â chymryd bod cynhwysedd yn bodoli. Y cynnig felly yw y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu mynediad teg at gyfleoedd casglu i'r holl drefnwyr sy'n gymwys, a chan hynny, ni ddylent ffafrio:

- achosion elusennol, llesol neu ddyngarol penodol;
- dulliau casglu cyhoeddus penodol; nac
- achosion lleol dros achosion cenedlaethol.

Eto, byddai'r cyfarwyddyd arfaethedig i awdurdodau lleol yn ystyried y mater hwn yn fanylach. Gallai fod o gymorth drwy gynnig ffactorau y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud y penderfyniadau hyn. Er enghraifft, gallai awgrymu mai un ffactor o'r fath ddylai fod yr elw tebygol o slotiau casglu penodol. Byddai rhai, oherwydd eu lleoliad a'u hamseru, yn debygol o gynhyrchu elw uchel, er enghraifft slotiau penwythnos ar y strydoedd siopa prysuraf.

*Pa ffactorau ddylai'r cyfarwyddyd arfaethedig ddweud y dylai awdurdodau lleol eu cymryd i ystyriaeth wrth bennu slotiau casglu?*

## 4. Gwiriadau ar gymhwyster ymgeiswyr

Byddai'r cyfarwyddyd arfaethedig yn gosod yr agweddau y byddai awdurdodau lleol yn eu hystyried wrth asesu cymhwyster am drwydded. Y rheini fyddai:-

a) cymhwyster y sefydliad neu'r achos y casglwyd ar ei gyfer;

b) cymhwyster trefnydd y casgliad;

c) natur y casgliad arfaethedig.

Byddai cynnig yr awdurdod arweiniol (a drafodwyd yn yr adran flaenorol yn 5.) yn galluogi un awdurdod lleol, lle mae casgliad am gymryd lle dros nifer o ardaloedd awdurdod lleol, i wneud y gwiriadau sy'n berthnasol i a), b) a c) uchod.

Cynigir y byddai'r awdurdod lleol yn gwirio'r canlynol:

- bod y casgliad yn wirioneddol at ddibenion elusennol, llesol neu ddyngarol (gweler 1. uchod);
- os gwneir y casgliad ar ran elusen neu sefydliad gwirfoddol penodol a enwir, dylai'r trefnydd fod â llythyr yn awdurdodi'r gweithgarwch;
- nad yw'r trefnydd yn unigolyn sydd ag euogfarn nas treuliwyd am drosedd yn ymwneud â thwyll neu anonestrwydd;
- nad yw'r trefnydd yn unigolyn sydd ag euogfarn nas treuliwyd am dorri'r ddeddfwriaeth casgliadau cyhoeddus, neu ddeddfwriaeth arall berthnasol, yn arbennig y rhai sy'n ymdrin â phobl sy'n codi arian yn broffesiynol a chyfranogwyr masnachol.
- nad yw trefnydd yn casglu ar gyfer elusen, ac nad oes ganddo/ganddi berthynas ffurfiol ag elusen (h.y. mae ef/hi yn aelod staff/aelod bwrdd, gwirfoddolwr rheolaidd), mewn perthynas â'r hyn mae gorchymyn Comisiwn Elusennau sy'n gwahardd codi arian yn gyffredinol neu drwy gasgliadau cyhoeddus yn unig yn dal mewn grym;
- bod y trefnydd yn rhoi sicrwydd bod ganddo ef / ganddi hi systemau priodol mewn grym i wirio bod casglwyr yn gymwys ac yn briodol (gweler 3. yn yr adran nesaf);
- bod y trefnydd yn rhoi sicrwydd ei fod ef / ei bod hi yn deall y gofynion sylfaenol a luniwyd i warantu diogelwch y casgliad ac yn cytuno i gadw atynt (er enghraifft, defnyddio blychau wedi eu selio ar gyfer casglu arian; defnyddio bathodynnau ar ffurf benodol – gweler 2. yn yr adran nesaf);
- bod y trefnydd yn sicrhau y rhoddir cofnodion penodol i awdurdodau lleol, ar gais, o weithgarwch casglu (gweler 4. yn yr adran nesaf);
- bod y trefnydd yn sicrhau na fyddai'r casgliad yn achosi blinder i'r cyhoedd drwy wneud hynny, neu mewn cyfuniad ag eraill oherwydd, er enghraifft, y byddai'n achosi rhwystr neu'n golygu llygredd sŵn (gweler 6. isod).

*A yw'r gwiriadau ar gymhwyster a gynigir yn rhai cywir? A oes gwiriadau eraill y dylid eu cynnwys?*

## 5. Cysylltu â chyrff eraill, gan gynnwys yr heddlu a'r Comisiwn Elusennau

Argymhellodd adroddiad yr Uned Strategaeth y dylid gwella trefniadau cysylltu rhwng awdurdodau lleol, yr heddlu a'r Comisiwn Elusennau er mwyn sicrhau gweithredu'r a gorfodi'r cynllun newydd arfaethedig yn effeithiol.

Byddai angen i awdurdodau lleol gydweithio'n agos â'r heddlu a'r Comisiwn Elusennau ar drwyddedu. Byddai angen trefniadau cysylltu effeithiol i wneud y canlynol:

- sicrhau'r gwiriadau perthnasol ar gymhwyster (gweler uchod);
- sicrhau ymateb cyflym, effeithiol i gasgliadau didrwydded, casgliadau trwyddedig nad ydynt yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a / neu gamddefnydd dywededig o arian a gasglwyd.

Mae cyswllt o'r natur honno yn bwysig i sicrhau na chamddefnyddir y system ac i warchod rhag casgliadau ffug.

Mewn nifer o ardaloedd lleol, rhoddwyd trefniadau cyswllt effeithiol mewn grym rhwng awdurdodau lleol, y Comisiwn Elusennau a'r heddlu. Dylid datblygu trefniadau cyswllt o'r fath ym mhob ardal awdurdod lleol. Byddai'r cyfarwyddyd arfaethedig ar gyfer awdurdodau lleol yn gwneud argymhellion ynghylch sut mae eu gweithredu orau.

*Sut gellir gwella trefniadau cyswllt rhwng awdurdodau lleol, yr heddlu a'r Comisiwn Elusennau?*

## 6. Niwsans cyhoeddus

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoli'r defnydd o le yng nghanol trefi. Mae'n gyfreithlon felly iddynt bennu faint o gasglwyr y gall yr ardal leol eu cynnwys yn rhesymol ac am ba gyfnodau (ac i ddosbarthu'r trwyddedau yn unol â hynny). Gall presenoldeb gormod o gasglwyr ar y stryd olygu niwsans ynddo'i hun.

Dylai awdurdodau lleol hefyd geisio sicrhau nad yw casglwyr yn achosi niwsans, neu'n bwriadu gwneud hynny drwy'r canlynol, er enghraifft:

- poeni aelodau'r cyhoedd sydd wedi gwrthod cais i roi neu i gychwyn sgwrs â'r casglwr;
- gosod byrddau sy'n rhwystro'r palmant;
- defnyddio systemau cyhoeddiadau cyhoeddus.

Mae rheoliadau o'r fath yn debygol o fod er lles codi arian o'u cymryd yn gyffredinol.

Eto, dylai'r cyfarwyddyd arfaethedig ar gyfer awdurdodau lleol ar weithredu'r cynllun ddiffinio'n glir pa fath o ymddygiad fyddai'n golygu niwsans cyhoeddus. Dylai'r diffiniad a ddefnyddir adlewyrchu pryderon y cyhoedd.

*A yw'r ffactorau a awgrymir uchod y rhai cywir i awdurdodau lleol eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu a fydd casgliad yn niwsans cyhoeddus, neu'n debygol o fod? Pa ffactorau eraill dylid eu cymryd i ystyriaeth?*

## 7. Cyfrifo casgliadau

Mae awdurdodau lleol yn gallu gwrthod trwydded am gasgliadau o dŷ i dŷ ar hyn o bryd os ydynt yn ystyried bod y costau sy'n gysylltiedig â chasgliad penodol yn rhy uchel.[9] Ni ellir gwneud taliadau i gasglwyr dan reoliadau casgliadau yn y stryd ac mae'n rhaid i daliadau i drefnwyr, neu unrhyw un arall, am wasanaethau'n gysylltiedig â'r casgliad, gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod sy'n trwyddedu.[10]

Daeth yr Uned Strategaeth i'r casgliad na ddylai awdurdodau lleol ymwneud â chostau, ac eithrio mewn achosion eithafol. Hynny yw, gellid cymryd costau gormodol fel tystiolaeth o fwriad i dwyllo'r sefydliad neu'r achos ar ran yr hwn y trefnwyd y casgliad a / neu i gamarwain y cyhoedd ynghylch natur y gweithgarwch.

Nid yw'n dderbyniol gan bawb y dylai awdurdodau lleol roi unrhyw ystyriaeth i gostau gweithgarwch casglu. Gwnaed nifer o ddadleuon yn erbyn hwy'n gwneud hynny.

Yn gyntaf, trefnir y rhan fwyaf o gasgliadau arian gan staff neu wirfoddolwyr rheolaidd elusennau cofrestredig, ac mae holl gostau ac elw casgliadau o'r fath yn mynd drwy gyfrifon yr elusen. Mae'r cyfrifon hynny'n cael eu monitro gan y Comisiwn Elusennau. Nid yw'n edrych ar gostau casgliadau cyhoeddus ar wahân ar hyn o bryd (naill ai'n unigol neu ar y cyd), ond pe bai'n ystyried bod costau codi arian yn uchel yn gyffredinol, byddai'n codi'r mater ag elusen.[11] Byddai'r costau a ddangosir yn y cyfrifon hefyd yn cynnwys y rhai hynny sy'n atebol i drydydd parti a delir i godi arian, a gontractiwyd i'r elusen (gweler isod).

Yn ail, un o'r gofynion deddfwriaethol yw y dylai trydydd parti a delir i godi arian neu sefydliadau masnachol fod â chytundeb ysgrifenedig â sefydliadau elusennol ar ran yr hyn maent yn codi arian. Mae'r cytundebau hynny wedi cael eu llunio i ddiogelu budd yr elusen.

Mae'r un ddeddfwriaeth yn ceisio sicrhau nad yw'r cyhoedd yn cael eu camarwain os telir i rai sy'n codi arian, ond eu bod yn gwybod hynny. Neu, lle bo cytundeb masnachol yn bodoli, pa ran o'r elw o drafodion sy'n mynd at achos elusennol, llesol neu ddyngarol. Gwneir nifer o gasgliadau o ymrwymiadau debyd uniongyrchol gan drydydd parti a delir i godi arian. Mae'n ofynnol iddynt egluro eu bod yn cael eu talu pan fônt yn deisyfu. Mae'n rhaid iddynt hefyd egluro ar ba sail y cyfrifir eu tâl.[12] Mae rhai casgliadau nwyddau, lle cyhoeddir bod ychydig o'r elw neu'r cyfan ohono yn mynd at achos elusennol, llesol neu ddyngarol, yn cael eu gwneud drwy allforwyr dillad ail-law masnachol. Mewn achosion o'r fath, dylai deunydd casglu nodi sut y cyfrifir yr enillion i'r achos da (er enghraifft, cyfran o'r elw blynyddol a wneir ar werthu nwyddau neu dâl penodol bob wythnos).[13]

9 Deddf Casglu o Dŷ i Dŷ, 1939 2 (3) (a) a (b).
10 Rheoliadau casglu ar y stryd model 15 (1) a (2).
11 Deddf Elusennau 1992, Rhan II, adran 59 (1) a (2).
12 Deddf Elusennau 1992, Rhan II, adran 60 (1) a (2).
13 Deddf Elusennau 1992, Rhan II, adran 60 (3). Argymhellodd adroddiad yr Uned Strategaeth y dylai'r cymal hwn gael ei ddiwygio i ofyn am ddatganiad penodol o'r arian a wnaed at ddibenion elusennol trwy gyfranogi masnachol o'r math hwn. Yr argymhelliad oedd y byddai'r Swyddfa Gartref yn cyhoeddi cyfarwyddyd, gan adeiladu ar yr hyn oedd ar gael eisoes yn ei gyhoeddiad 'Charitable Fundraising: Professional and Commercial Involvement' sy'n nodi'r ffurf ar ddatganiad sy'n addas i amgylchiadau penodol yr achos.

Yn drydydd, awgrymir y gall asesu'r gost sy'n gysylltiedig â dulliau casglu penodol fod yn anodd, yn arbennig y rhai gyda strwythurau cost cymhleth fel casglu debyd uniongyrchol. Byddai felly'n afresymol disgwyl i bob awdurdod lleol gael yr arbenigedd gofynnol.

Yn bedwerydd, byddai'n rhaid i unrhyw asesiad o dderbynioldeb costau naill ai fod ar ffurf asesiad o amcangyfrifon ar adeg y cais am gymhwysedd neu astudio'r cofnodion blynyddol (sy'n rhoi manylion am gostau, ac elw sy'n deillio o'r gweithgaredd trwyddedig) neu'r ddau. Gan ddibynnu ar natur y ffurflenni gofynnol, gallai hyn roi baich gweinyddol trwm ar gyrff sy'n casglu ac awdurdodau lleol.

Cyn belled ag y maent yn mynd, mae'r dadleuon hynny yn rhesymol. Ond, nid oes peirianwaith ar gyfer gwirio costau codi arian cyrff gwirfoddol nad ydynt yn elusennol (gan gynnwys y costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â rhoi cytundeb i godwyr arian trydydd parti sy'n cael eu talu).

Efallai mai'r ateb fyddai ei gwneud yn ofynnol i drefnwyr casgliadau ar gyfer cyrff neu achosion nad ydynt yn elusennol baratoi a chyflwyno amcangyfrifon o a/neu adroddiadau blynyddol roi manylion y costau a'r enillion sy'n deillio o'u gweithgarwch codi arian.

Gall y cyfarwyddyd arfaethedig ar gyfer awdurdodau lleol ystyried ffurf yr adroddiadau hynny a sut y dylid eu dilysu. Y bwriad fyddai cyflwyno system gymesur, er enghraifft, archwilio ymgyrchoedd mawr cenedlaethol yn unig.

Er mwyn darparu diogelwch ychwanegol, byddai'n ofynnol i bob trefnydd casgliad gadw cofnodion manwl o'i weithgaredd casglu y gallai'r awdurdod lleol eu harchwilio pe bai ganddynt bryderon am unrhyw agwedd ar y gweithgaredd trwyddedig (gweler 4. yn yr adran nesaf am ragor o fanylion).

*A ddylai fod yn ofynnol i bawb sy'n trefnu casgliadau gyflwyno amcangyfrifon cyn a/neu adroddiadau wedi'r casgliad yn rhoi manylion y costau ac unrhyw enillion o'r gweithgaredd? A ddylai trefnwyr casgliadau sy'n weithwyr, ymddiriedolwyr neu wirfoddolwyr arferol i elusen gofrestredig gael eu heithrio o'r gofyniad i gyflwyno adroddiadau o'r fath?*

ADRAN 3:

# Y gofynion a osodir ar drefnwyr casgliadau

## 1. Gwneud cais am gymhwyster

Er mwyn asesu eu cymhwyster i gasglu, byddai'n ofynnol i drefnwyr casgliadau:

- ddisgrifio'r achos y maent yn casglu ar ei ran (gan nodi, os yn berthnasol, enw'r corff a llythyr yn cadarnhau ei fod yn cytuno â'r casgliad, gan gynnwys y dulliau y bwriedir eu defnyddio);
- disgrifio'r berthynas ffurfiol, os oes un, sydd ganddynt â'r corff y cesglir ar ei gyfer, e.e. aelod o staff y corff, ymddiriedolwr neu aelod o'r bwrdd neu aelod o staff corff codi arian masnachol dan gytundeb gyda'r corff hwnnw;
- disgrifio natur y casgliad maent yn dymuno ei gynnal, er enghraifft, casglu ymrwymiadau debyd uniongyrchol yn y stryd neu o dŷ i dŷ;
- gwneud datganiad nad oes ganddynt gollfarn berthnasol heb ei threulio (gweler 4. yn yr adran flaenorol);
- rhoi caniatâd i'r awdurdod lleol wneud y gwiriadau angenrheidiol ar eu cymhwyster (gweler 4. yn yr adran flaenorol);
- darparu rhestr o gasglwyr a rhoi addewid y byddant yn gwirio bod y casglwyr yn addas a phriodol (gweler 3. isod);
- rhoi sicrwydd eu bod wedi deall y ddeddfwriaeth casgliadau cyhoeddus a deddfwriaeth arall berthnasol gan gynnwys deddfwriaeth parthed codwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol ac yn cytuno i gadw at y gofynion;
- rhoi sicrwydd penodol eu bod wedi cytuno i gadw at y gofynion gwybodaeth a ddisgrifir yn 4. isod;
- rhoi sicrwydd penodol na fyddai'r casgliad yn cael ei gynnal mewn modd a fyddai'n creu niwsans cyhoeddus (gweler 6. yn yr adran flaenorol sy'n esbonio y byddai'r dehongliad o niwsans cyhoeddus yn cael ei drafod mewn cyfarwyddyd);

Ac, o gymryd bod y trefnydd yn dymuno casglu yn ardal mwy nag un awdurdod lleol, i:

- ddarparu rhestr o'r ardaloedd awdurdodau lleol eraill lle roeddynt yn dymuno casglu;
- (os ydynt yn cael eu hystyried yn gymwys gan yr awdurdod arweiniol – gweler 4. yn yr adran flaenorol), i gysylltu â phob awdurdod lleol y maent yn dymuno casglu yn ei ardal a chael trwydded i gasglu ar ddyddiadau penodol ac mewn lleoliadau penodol (ond, gweler 6 yn yr adran gyntaf).

Argymhellir y dylai ffurflenni cais ar gyfer cymhwyster fod â nodiadau cyfarwyddyd ynghlwm wrthynt sy'n esbonio i'r trefnwyr:

- ofynion y ddeddfwriaeth a'r cosbau am eu torri;
- y broses ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau cymhwyster/trwyddedu gan awdurdod lleol gan gynnwys penderfyniad i ddirymu trwydded;
- y gall peidio cydymffurfio ag amodau'r cynllun arwain at ddirymu'r drwydded ac efallai na fydd cais am drwydded newydd (gan drefnwyr penodol neu ar ran y corff penodol hwnnw neu achos neu'r ddau) yn cael ei ystyried nes bydd cyfnod penodol wedi mynd heibio (cyfnod o flwyddyn efallai).

Gall y cais am asesiad cymhwyster a chais am drwydded gael eu cyfuno pan fydd hi'n fwriad cyfyngu'r casgliad i ardal un awdurdod lleol.

*A yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr neu a oes materion eraill y dylid eu trafod yn y cais am gymhwyster/nodiadau cyfarwyddyd?*

## 2. Amddiffynfeydd sylfaenol ar gasgliadau

Rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus bod yr arian y maent yn ei roi mewn blychau casglu yn cyrraedd yr achos y maent wedi rhoi iddo. Mae hynny'n golygu y dylai fod yn ofynnol i drefnwyr casgliadau roi systemau sylfaenol yn eu lle i warchod enillion casgliadau arian gan gynnwys:

- defnyddio blychau casglu wedi eu selio a'u rhifo'n olynol (dylai amlenni casglu wedi eu llenwi gael eu gosod mewn blychau o'r fath) gydag enw'r elusen neu'r corff gwirfoddol neu'r gronfa wedi ei nodi'n glir arno;
- sicrhau bod yr holl ddeunydd casglu a ddosbarthwyd gan gynnwys bathodynnau a blychau casglu heb eu defnyddio (ond heb gynnwys amlenni) yn cael eu dychwelyd a bod cyfrif yn cael ei roi amdanynt;
- bod y trefnydd a pherson cyfrifol arall heb gysylltiad â'r achos y mae'r arian yn cael ei godi ar ei ran (neu ddau berson cyfrifol) yn bresennol wrth i'r blychau casglu gael eu hagor ac i'r ddau lofnodi datganiad ar enillion pob blwch sydd wedi ei rifo;
- yr enillion i gael eu bancio gan y trefnydd ac un person cyfrifol arall (neu ddau berson cyfrifol) a'u bod yn cael derbynneb ar y diwrnod neu ar y diwrnod gwaith nesaf wedi i'r blychau gael eu hagor;
- holl enillion casgliadau i gael eu talu i gyfrifon banc a reolir gan y corff y codwyd yr arian ar ei ran;
- yr holl gasglwyr i ddefnyddio bathodynnau swyddogol (wedi eu darparu gan yr elusen ar ffurf benodol ac wedi eu llofnodi gan y casglwr);
- yr holl gasglwyr i dderbyn copi o'r drwydded yn rhoi caniatâd i gasglu y dylent ei ddangos os bydd rhywun yn gofyn iddynt wneud hynny.

Rhaid i'r cyhoedd hefyd fod yn hyderus, pan fyddant yn rhoi eu manylion banc i'r rhai sy'n chwilio am ymrwymiad debyd uniongyrchol, y bydd eu gwybodaeth yn cael ei chadw yn ddiogel.

*A yw'r rhain yn amddiffynfeydd sylfaenol cywir i warchod enillion unrhyw fath o gasgliad? A oes rhywbeth wedi ei adael allan? Sut y dylid diffinio 'person cyfrifol arall' yn y cyd-destun hwn?*

## 3. Pennu bod y casglwyr yn addas a phriodol

Bydd yn ofynnol i drefnwyr casgliadau cyhoeddus sicrhau bod casglwyr yn 'addas a phriodol'. Yn y man lleiaf gellid disgwyl iddynt ofyn i'w holl gasglwyr lofnodi nad oes ganddynt gollfarn berthnasol heb ei threulio (gweler 4. yn yr adran flaenorol).

*A yw'r gofyn hwn yn ddigonol/rhesymol? A all y mater gael ei drafod mewn ffordd well?*

Mewn nifer o ardaloedd mae rheoliadau casglu ar y stryd yn rhoi hawl i awdurdod trwyddedu i ganiatáu'r defnydd o gasglwyr rhwng 14 ac 16 oed. Cyn rhoi caniatâd byddai'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu fod yn fodlon bod cyfiawnhad dros ddefnyddio casglwyr o'r oedran hwnnw ac y byddai oedolyn gyda hwy. Mae anghysondeb yma o ystyried bod y rheoliadau yn rheoli casglu o dŷ i dŷ yn nodi y dylai'r isafswm oedran ar gyfer casglwyr fod yn 16.

*A ddylid gosod y lleiafswm oedran ar gyfer casglwyr stryd ac o dŷ i dŷ yn 14 (neu iau), ar yr amod bod casglwyr hyd at 16 oed yn cael cwmni oedolyn neu a ddylai isafswm oedran pob casglwr gael ei osod ar 16 (neu hŵn)?*

## 4. Cadw cofnodion a monitro

Yr argymhelliad yw y dylai fod yn ofynnol i drefnwyr gadw cofnodion manwl am eu gweithgaredd casglu, gan gynnwys:

- cyfrif o enillion pob blwch casglu wedi ei rifo (a'r lleoliad a'r diwrnod a'r amser y defnyddiwyd y blwch);
- cyfrif o'r ymrwymiadau debyd uniongyrchol a wnaed (a lleoliad a diwrnod a'r amser pryd y rhoddwyd yr ymrwymiad);
- os bydd trydydd parti yn cynnal casgliadau arian parod – cadarnhad bod yr enillion, cyn i unrhyw dreuliau gael eu talu, wedi cyrraedd y corff neu gronfa y casglwyd hwy ar eu rhan;
- cyfrif o'r treuliau sy'n gysylltiedig â phob casgliad, cenedlaethol neu leol;
- os bydd trydydd parti yn casglu nwyddau ac yn nodi y bydd cyfran o'r enillion yn mynd at achosion elusennol – cadarnhad o gyfanswm y refeniw a grëwyd gan y gweithgaredd ac o'r symiau a dalwyd i'r achos dros gyfnodau penodedig (chwarterol a blynyddol).

Dylai awdurdodau lleol fod â'r grym i'w gwneud yn ofynnol i drefnwyr ddarparu'r wybodaeth honno yn ôl eu doethineb . Efallai y byddent yn mynnu ei fod yn cael ei gyflwyno os derbyniwyd cwynion am y modd y cynhaliwyd casgliadau penodol a/neu fe allant wirio ar hap.

Dylai awdurdodau lleol fedru cymryd camau pellach ar sail gwybodaeth a ddarparwyd lle'r oedd amau:

- twyll neu ddwyn;
- cyfranogiad heb ei ddatgelu gan gyrff masnachol neu godwyr arian sy'n derbyn tâl;
- datganiadau anghywir ynglŷn â thalu i godwyr arian sy'n derbyn tâl neu'r enillion o gyfranogiad masnachol;
- anghysondebau yn y cyfrifo parthed treuliau.

Gallant, er enghraifft, atal trwyddedau tra bod pryderon o'r fath yn cael eu harchwilio. Os gwelir bod carn i'r pryderon, gellir dirymu trwyddedau. Byddai troseddau yn cael eu cyfeirio at yr heddlu. Byddai pryderon am gamddefnyddio neu gamreoli cronfeydd elusennol yn cael eu cyfeirio at y Comisiwn Elusennau.

*A yw'r gofynion cadw cofnodion a argymhellir yn rhai addas? A ddylai awdurdodau lleol fedru atal trwyddedau tra eu bod yn ymchwilio i unrhyw bryderon?*

HOLIADUR I YMATEBWYR:

# Argymhellion ar gyfer ymgynghoriad

Mae eich sylwadau ar y papur ymgynghorol hwn yn bwysig iawn. Byddant o gymorth i sicrhau datblygu cynllun y gellir ei weithredu.

Mae'r adran hon yn dwyn at ei gilydd y prif gwestiynau a godwyd yn y papur ymgynghorol. Fe'i dyluniwyd i'ch helpu chi i ymateb. Nid yw'n ofynnol i chi ateb pob cwestiwn, dim ond y rhai sy'n berthnasol i chi. Os ydych yn gweithio ar gopi caled a bod arnoch angen mwy o ofod ar gyfer eich atebion, ychwanegwch ddalenni eraill os gwelwch yn dda.

**Y dyddiad cau ar gyfer yr ymatebion yw dydd Mawrth 2 Rhagfyr 2003.**

Sylwer y gallwn gyfeirio yn gyhoeddus at farn a fynegir gan y rhai yr ydym yn ymgynghori â hwy oni bai fod y person dan sylw wedi gofyn i'w barn gael ei thrin yn gyfrinachol. Ni fydd datganiad cyfrinachedd safonol mewn e-bost yn cael ei ystyried fel cais am beidio datgelu.

## Adran 1 Strwythur y cynllun

Mae'r adran hon yn archwilio nodweddion allweddol strwythur y cynllun arfaethedig.

1. A yw'r cynnig i greu cynllun trwyddedu integredig newydd yn un da mewn egwyddor?

2. A oes angen trwydded i godi arian wyneb yn wyneb?

3. Beth fyddai prif ganlyniadau newid o'r fath i awdurdodau lleol a sefydliadau codi arian?

4. A ddylai'r diffiniad o 'fan cyhoeddus' gynnwys eiddo preifat mae gan y cyhoedd fynediad rhwydd iddo (er enghraifft, cyrtiau blaen archfarchnad)?

5. A ddylai rhai mathau o eiddo a mathau o gasgliadau gael eu heithrio'n benodol? Os felly, a yw'r eithriadau a gynigir yn rhai cywir (er enghraifft, casgliadau mewn siopau)?

6. A ddylai casgliadau bychain lleol gael eu heithrio?

7. Sut y dylid diffinio casgliad bychan lleol (er enghraifft, casgliadau a gynhaliwyd yn un ward awdurdod lleol yn unig)?

8. A yw'r argymhelliad i greu awdurodau arweiniol (i asesu cymhwyster casgliadau pan fydd y gweithgaredd arfaethedig yn cynnwys ardaloedd nifer o awdurdodau lleol) yn un da? Beth fyddai'r effaith ar gynghorau dosbarth?

9. Beth yw manteision yr argymhelliad awdurdod arweiniol?

10. Beth yw anfanteision yr argymhelliad  awdurdodau arweiniol?

11. A yw'r argymhelliad i wahaniaethu rhwng trefniadau gweinyddol ar gyfer casglu nwyddau yn un synhwyrol?

12. A oes unrhyw reswm pam na ddylai'r broses apelio fod yr un peth i'r ddau fath o gasgliad?

13. A oes unrhyw ddadleuon dros beidio â gwneud y Llys Ynadon yn llwybr apêl?

14. A ddylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am drwyddedu casgliadau cyhoeddus yn Llundain oddi wrth yr heddlu i'r awdurdodau lleol?

15. A ydych yn ystyried y dylid ychwanegu unrhyw droseddau at y rhestr uchod, neu ddileu unrhyw rai ohonynt? Rhowch eich rhesymau.

16. Cost gweinyddu'r cynllun trwyddedu:

(a) Pa wybodaeth sydd gan elusennau ac awdurdodau lleol y gallent drefnu iddi fod ar gael i ni heb ormod o drafferth?

(b) Beth yw cost gweinyddu'r system bresennol?

(c) Pa gostau/arbediadau ychwanegol a ragwelir dan y system arfaethedig? Croesewir amcangyfrif o'r costau/arbediadau ariannol.

17. A yw'r farn gyffredin yn parhau na ddylid codi tâl?

## Adran 2 Gweithredu'r cynllun gan awdurdodau lleol

Bydd yr ymateb i'r adran hon yn rhoi gwybodaeth ar gyfer y cyfarwyddyd arfaethedig i awdurdodau lleol ar weithredu'r cynllun newydd.

18. Sut dylid diffinio llesol a dyngarol orau (er enghraifft, trwy gymharu â phenderfyniadau graddio awdurdod lleol)?

19. A yw casgliadau lle mae elfen gref o fudd preifat (er enghraifft, nawdd ar gyfer digwyddiadau her) yn llesol neu'n ddyngarol?

20. Pa ffactorau ddylai awdurdod lleol eu hystyried wrth asesu gallu ardal i gynnwys gweithgaredd casglu?

21. Pa ffactorau ddylai'r cyfarwyddyd arfaethedig ddweud y dylai awdurdodau lleol eu cymryd i ystyriaeth wrth bennu slotiau casglu (er enghraifft, ansawdd gwahanol safleoedd)?

22. A yw'r gwiriadau ar gymhwyster a gynigir yn rhai cywir?

23. Sut gellir gwella trefniadau cyswllt rhwng awdurdodau lleol, yr heddlu a'r Comisiwn Elusennau?

24. Pa ffactorau ddylai awdurdodau lleol eu hystyried wrth asesu a yw casgliad yn niwsans cyhoeddus, neu'n debygol o fod?

25. A ddylai fod yn ofynnol i bawb sy'n trefnu casgliadau gyflwyno amcangyfrifon cyn a/neu adroddiadau wedi'r casgliad yn rhoi manylion y costau ac unrhyw enillion o'r gweithgaredd?

26. A ddylai trefnwyr casgliadau sy'n weithwyr, ymddiriedolwyr neu wirfoddolwyr arferol i elusen gofrestredig gael eu heithrio o'r gofyniad i gyflwyno adroddiadau o'r fath?

27. A yw'r wybodaeth yr argymhellir y dylai trefnwyr ei chyflwyno yn ddigon cynhwysfawr (gweler yr adran ar Gyfrifo am Gasgliadau)?

## Adran 3 Y gofynion a osodir ar drefnwyr casgliadau

28. Mae'r papur hwn yn cynnig y dylai trefnydd y casgliad a pherson cyfrifol arall neu ddau berson cyfrifol fod yn bresennol wrth agor blychau casglu. Sut y dylid diffinio 'person cyfrifol arall' yn y cyd-destun hwn?

29. A ddylai fod gan drefnwyr casgliadau amddiffynfeydd sylfaenol yn eu lle i warchod enillion casgliadau? A oes angen amddiffynfeydd eraill, yn ychwanegol at y rhai a awgrymir?

30. Gall trefnwyr casgliadau cyhoeddus ofyn i'w holl gasglwyr lofnodi nad oes ganddynt gollfarn berthnasol heb ei threulio. A yw'r gofyn hwn yn ddigonol i sicrhau bod casglwyr yn 'addas a phriodol'?

31. A ddylid gosod yr isafswm oedran ar gyfer casglwyr ar y stryd ac o ddrws i ddrws ar 14 oed (neu iau), ar yr amod bod casglwyr hyd at 16 oed yng nghwmni oedolyn neu a ddylid gosod y lleiafswm oedran ar gyfer casglwyr ar 16 oed (neu hŵn)?

32. A yw'r gofynion cadw cofnodion a awgrymir yn ddigonol/rhesymol?

33. A ddylai awdurdodau lleol fedru atal trwyddedau tra eu bod yn ymchwilio i unrhyw bryderon am weithgaredd casglu?

34. Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w rhoi fel ymateb i'r ymgynghoriad, defnyddiwch y gofod hwn os gwelwch yn dda.

Anfonwch eich ymateb gan ddefnyddio'r cyfeiriad, cyfeiriad e-bost neu rif teleffon canlynol:

Mr Henry Wood
Charities Unit
Home Office
3rd Floor
Allington Towers
19 Allington Street
London SW1E 5EB

E-Bost: Henry.Wood2@homeoffice.gsi.gov.uk
Ffôn: 020 7035 5352

# ATODIAD A:

# Asesiad Effaith Reoliadol Rhannol

## 1. Teitl y bwriad

Rheoliad Casgliad Cyhoeddus Elusennol – diwygio deddfwriaeth casgliadau cyhoeddus elusennol.

## 2. Diben a bwriad y mesur

### (i) Yr amcan

Creu system deg a chost-effeithiol o drwyddedu gan awdurdod lleol ar gasgliadau cyhoeddus elusennol sy'n cadw cydbwysedd addas rhwng hwyluso codi arian cyfrifol ar gyfer gwaith elusennol, cael gwared o'r dryswch presennol i elusennau a chyrff codi arian, a chyfyngu ar godi arian amhriodol, er enghraifft, apeliadau ffug neu eithafol a chyfyngu niwsans cyhoeddus.

### Datganoli

Byddai'r cynllun, os caiff ei weithredu, yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig.

### (ii) Y cefndir

Ym Medi 2002 cyhoeddodd yr Uned Strategaeth (SU) adroddiad i ymgynghori arno, *"Private Action, Public Benefit – A Review of Charities and the Wider Not-For-Profit Sector"* fel ymateb i gais gan y Prif Weinidog i edrych ar y gyfraith a'r strwythurau rheoleiddiol sy'n rheoli'r sector cyfan. Un o'r materion a ystyriwyd gan yr adroddiad oedd rheoli casgliadau elusennol cyhoeddus. Daeth i'r casgliad bod y ddeddfwriaeth bresennol, sy'n ymdrin â chasgliadau cyhoeddus yn y stryd ac o dŷ i dŷ yn anghyson, yn hen ffasiwn ac yn ddiangen o gymhleth. Felly argymhellodd y dylid dwyn deddfwriaeth ymlaen a fyddai'n sefydlu cynllun trwyddedu awdurdod lleol integredig.

Derbyniwyd bron i 1,100 o ymatebion i ymgynghoriad yr SU. Gwnaeth nifer bach sylw ar y cynnig i greu cynllun trwyddedu newydd integredig. Cytunai'r mwyafrif o'r ymatebwyr y dylid cael cynllun trwyddedu statudol unedig, yn cael ei weinyddu gan awdurdodau lleol, ar gyfer pob casgliad cyhoeddus.

Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol i'r ymgais ddiwethaf i gyflwyno cynllun tebyg trwy Ran III o Ddeddf Elusennau 1992 fod yn aflwyddiannus. Daeth Rhan III yn ddeddf ond ni ddaeth i rym o gwbl gan y credid bod diffygion ym manylion gweithdrefnau'r cynllun trwyddedu. Felly, i sicrhau bod y cynllun newydd yn ymarferol, mae'n ofynnol ymgynghori ymhellach ac yn fanwl â'r sector, awdurdodau lleol a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Ar 31 Mawrth 2003 roedd 187,316 o elusennau ar Gofrestr y Comisiwn Elusennau (ac o'r rheiny roedd 163,013 yn "brif" elusennau; roedd y gweddill yn is-gwmnïau neu ganghennau o elusennau eraill). Amcangyfrifir bod nifer tebyg o elusennau sydd ar hyn o bryd wedi eu heithrio neu eu hesgusodi rhag cofrestru gyda'r Comisiwn. Yn ychwanegol ceir cyrff gwirfoddol a fyddai'n gymwys fel rhai cymwynasgar neu ddyngarol ond oherwydd bod y mwyafrif ohonynt yn anffurfiol eu cyfansoddiad a heb gofrestru gydag unrhyw awdurdod, nid yw eu niferoedd yn hysbys ond gallent fod yn ddegau o filoedd.

## (iii) Asesu risg

### Y brif risg

Y brif risg y mae'r cynllun wedi ei dylunio i warchod rhagddi yw'r posibilrwydd y bydd lleihad yn refeniw casgliadau oherwydd dirywiad yn ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y ffurf hwn o godi arian.

*Faint fydd casgliadau cyhoeddus elusennol yn ei godi bob blwyddyn?*

Gan na chedwir unrhyw gofnod yn ganolog o gyfanswm y refeniw a godir trwy gasgliadau o dŷ i dŷ ac ar y stryd mae'n amhosibl datgan faint o incwm a godir trwy'r dulliau hyn o godi arian ac nid oes unrhyw ymchwil yn manylu arno yn y modd hwn. Ond mae arolygon NCVO/NOP yn dynodi bod rhoi elusennol yn gyffredinol ymhell dros £11 y pen y mis gan dros 70% o'r boblogaeth ym 1995, a oedd yn cyfateb i £5.7 biliwn o gyfraniadau, ond erbyn 1997 roedd y ffigur hwn wedi gostwng o tua £1 biliwn gan lai o roddwyr a chyfraniadau misol llai. Erbyn 2000 roedd y cyfraniad misol ar gyfartaledd wedi codi'n uwch na'i lefel yn 1995 i bron i £12 y person ond roedd y gyfran o'r boblogaeth oedd yn rhoi i elusennau wedi disgyn i 67.5%, er bod hynny'n cyfateb i £6.58 biliwn o gyfraniadau, cynnydd o 10% ers 1995 *(NCVO UK Voluntary Sector Almanac 2002).*

Os gwelwch yn dda, rhowch enghreifftiau penodol o sut y mae hyn yn effeithio ar eich corff a'ch arfer chi. A yw'r refeniw o'r mathau hyn o gasgliadau ariannol wedi dirywio/cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf? A yw casgliadau wyneb yn wyneb (ymrwymiadau debyd uniongyrchol) wedi cynyddu'r incwm a dderbynnir?A oes unrhyw ffactorau eraill yn dylanwadu ar refeniw casgliadau y dylem fod yn ymwybodol ohonynt/eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio unrhyw reoliadau newydd?

### Risgiau penodol

Nad yw gweithgaredd casglu ffug ar y stryd yn cael ei daclo mewn rhai ardaloedd.

*I ba raddau y mae hyn yn broblem ar hyn o bryd? Faint o ddigwyddiadau sydd yna o gasgliadau stryd ffug mewn ardaloedd awdurdodau trwyddedu bob blwyddyn? Faint a amcangyfrifir sy'n cael ei golli i elusennau trwy gasgliadau twyllodrus bob blwyddyn?*

Dirywiad mewn ymddiriedaeth gyhoeddus a hyder yn y ffurf hwn o godi arian oherwydd 'dirlenwi' mewn rhai ardaloedd gyda rhai safleoedd casglu poblogaidd yn cael eu gor-ddefnyddio.

*Rhowch unrhyw enghreifftiau i ddangos graddfa'r broblem hon ac unrhyw dystiolaeth bod codi arian wedi dirywio mewn rhai ardaloedd oherwydd bod rhai safleoedd yn cael eu gorddefnyddio.*

Er mwyn osgoi trwyddedu, gallai codwyr arian ffug wneud casgliadau ar fathau o eiddo preifat fel tir archfarchnad a gorsafoedd rheilffordd, lle byddai'r perchenogion yn annhebygol o wybod am y gweithgaredd/o fedru ei reoli.

*A oes tystiolaeth bod casgliadau ffug o'r fath yn digwydd? Ar ba raddfa y maent yn digwydd?*

Mae gorchmynion eithrio cenedlaethol a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i gyrff sy'n casglu mewn nifer sylweddol o ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol trwy Gymru a Lloegr yn rhoi mantais annheg i gyrff cenedlaethol sy'n ymwneud â gweithgaredd casglu o dŷ i dŷ ar raddfa fawr dros gyrff llai nad ydynt yn casglu mor eang.

*A oes gennych unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr haeriad yma'n gywir? A yw eich corff chi dan anfantais oherwydd nad oes ganddo orchymyn eithrio? A yw hynny wedi peri i chi ddwyn costau ychwanegol?*

Bod gweithredu'r ddeddfwriaeth bresennol yn anghyson ac o ganlyniad, bod refeniw casglu yn ddirwasgedig oherwydd nad yw awdurdodau lleol yn rhoi'r cyfle mwyaf posibl i gasgliadau cymwys, a gynhelir yn drefnus ac sy'n gyson â'r cynhwysedd yn lleol.

*Rhowch unrhyw dystiolaeth naill ai i gefnogi neu i wrthbrofi'r farn hon.*

Nad yw gofynion cyfrifo ac adrodd ar gyfer trwyddedu yn ychwanegu gwerth trwy, er enghraifft, greu mwy o dryloywder am gostau gweithgaredd casglu.

*A yw elusennau, codwyr arian ac awdurdodau lleol yn cael y system bresennol yn un sy'n cefnogi eu gwaith?*

## 3. Dewisiadau

Dewis 1: Gwneud dim

Dewis 2: Cael y sector i osod côd ymarfer gwirfoddol/hunan reoleiddio

Dewis 3: Dylai awdurdodau lleol drwyddedu pob casgliad cyhoeddus elusennol dan system drwyddedu newydd integredig.

## 4. Manteision

Dewis 1: Dim. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol wedi dyddio'n ddifrifol (er y dylai'r sector ac awdurdodau cyhoeddus fod yn gyfarwydd â hi) ac nid yw'n glir pa mor bell y mae'n ymestyn.

Dewis 2: Dim. Byddai hunanreolaeth lwyr yn anymarferol ac yn feichus i'r sector ei weinyddu. Mae'r gyfraith casglu elusennol gyfredol yn rhoi lefel o warchodaeth rhag casgliadau ffug, twyll a niwsans cyhoeddus a byddai diffyg llwyr rheolaeth yn niweidio hyder y cyhoedd mewn rhoi elusennol trwy risg o beidio cydymffurfio yn arbennig gan y rhai sy'n cael eu cymell gan hunan-les a/neu fudd personol.

Dewis 3: Mae'r cynigion, yn bennaf, yn adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol, gan ei symleiddio a'i rhesymoli i gynnig un gyfundrefn a fyddai'n haws ei deall na'r ddeddfwriaeth bresennol. Byddai hyn yn golygu, cyn belled ag sy'n bosibl, cael gwared o'r dryswch presennol sy'n bodoli i elusennau, awdurdodau lleol, cyrff codi arian proffesiynol a'r cyhoedd.

## Prif elfennau'r cynllun arfaethedig

### Trwyddedau

Yn y cynllun newydd bydd yn ofynnol i awdurdodau drwyddedu pob casgliad elusennol cyhoeddus ar wahân i rai bychain a lleol iawn a fydd yn cael eu heithrio. Bydd y gofyn am drwydded yn ymestyn i geisio debyd uniongyrchol, a elwir weithiau yn godi arian wyneb yn wyneb. Rhagwelir y bydd trwyddedau yn golygu trwydded safonol i bob casgliad cyhoeddus elusennol, a fydd yn ddilys am flwyddyn i ddeunaw mis ac y dylid caniatáu i'r trwyddedau cyfredol ddod i ben ac i drwyddedau newydd gael eu rhoi dan y cynllun newydd. Y cynnig ar hyn o bryd yw na ddylid codi unrhyw dâl am drwyddedau.

### Y diffiniad o fan cyhoeddus

Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol yn trwyddedu casgliadau elusennol ar eiddo preifat fel tir archfarchnad a gorsafoedd rheilffordd. Mae hyn yn cynnig dihangfa bosibl i'r rhai sy'n dymuno osgoi gwiriadau a rheolaeth y system drwyddedu. Cynigir y dylai casgliadau yn y dyfodol gael eu trwyddedu os ydynt yn digwydd ar y briffordd gyhoeddus neu dir a ddefnyddir yn gyffredin gan y cyhoedd fel priffordd neu lle mae ganddynt fynediad cyson.

### Gosod system 'awdurdod arweiniol' yn lle'r Gorchmynion Eithrio cenedlaethol

Bydd y Gorchmynion Eithrio Cenedlaethol a roddir gan y Swyddfa Gartref i gyrff mawr sy'n cynnal casgliadau o dŷ i dŷ mewn rhan sylweddol o Gymru a Lloegr yn cael eu disodli gan system newydd o 'brif awdurdod'. Y bwriad yw i'r system leihau'r baich cyffredinol i'r rhai sy'n dymuno casglu o dŷ i dŷ ac yn y stryd yn ardal mwy nag un awdurdod lleol.

### Apeliadau yn erbyn gwrthod trwydded

Ar hyn o bryd mae hawl i apelio at yr Ysgrifennydd Cartref yn erbyn gwrthod trwydded casglu o dŷ i dŷ ond nid yn erbyn gwrthodiad trwydded i gasglu ar y stryd. Y cynnig newydd yw rhoi hawl i apelio yn erbyn y ddau fath o wrthodiad. Y bwriad yw i apeliadau gael eu cyfeirio at lysoedd ynadon.

### Cyfrifoldeb am drwyddedu yn Llundain

Ar hyn o bryd yn Llundain mae'r Heddlu Metropolitan a Heddlu Dinas Llundain yn gyfrifol am drwyddedu casgliadau ar y stryd ac o dŷ i dŷ. Rhoddir ystyriaeth i drosglwyddo'r swyddogaeth hon i awdurdodau lleol yn Llundain.

### Gweithrediad y cynllun gan Awdurdodau Lleol

Derbynnir yr angen am gyfarwyddyd clir wedi ei gyhoeddi'n ganolog ar weithredu unrhyw gynllun newydd.

### Cwmpas dibenion/achosion elusennol, llesol a dyngarol

Cynigir y byddai'r cynllun newydd, fel y mae ar hyn o bryd, yn cynnwys casgliadau ar gyfer dibenion elusennol, llesol a dyngarol. Yn aml mae awdurdodau lleol yn cael anhawster wrth bennu a yw achosion penodol anelusennol yn rhai llesol a dyngarol. Bydd y cyfarwyddyd canolog a gynigir yn ymdrin â'r cwestiwn hwn.

### Cynhwysedd

Gall ardaloedd lleol, oherwydd eu hamgylchiadau gwahanol, gynnal lefelau gwahanol o weithgarwch casglu. Ni ddylai'r lefel y bydd casgliadau'n creu enillion dichonol, y cyfeirir ato fel cynhwysedd ardal, gael ei bennu ar sail meini prawf mympwyol.

### Darparu mynediad teg

Cynigir y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu mynediad teg at gyfleoedd casglu i bob corff cymwys. Bydd y cyfarwyddyd yn nodi'r ffactorau y dylid ymdrin â hwy wrth wneud penderfyniadau dyrannu.

### Cyfrif am gasgliadau a'u henillion

Trefnir llawer o gasgliadau cyhoeddus gan elusennau cofrestredig. Mae'r cyrff hynny eisoes yn adrodd a rhoi cyfrif i'r Comisiwn Elusennau a gellid gweld y gofyn iddynt gyflwyno adroddiadau i awdurdodau lleol ar eu gweithgaredd casglu cyhoeddus fel gorreoleiddio.

Bydd y cyfarwyddyd arfaethedig yn nodi ffurf yr adroddiadau a fydd yn ofynnol gan gyrff anelusennol a sut y gellid eu dilysu.

Bydd y cyfarwyddyd hefyd yn ystyried sut y gall awdurdodau lleol sicrhau nad yw casgliadau yn creu niwsans cyhoeddus, pa wiriadau y dylai awdurdodau lleol eu gwneud ar gymhwyster ymgeiswyr a pha drefniadau ddylid eu gwneud i ddarparu cyswllt effeithiol rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill, gan gynnwys yr heddlu a'r Comisiwn Elusennau, i sicrhau bod y gwiriadau priodol yn cael eu gwneud ac i sicrhau gorfodi effeithiol.

### Gofynion a osodir ar drefnwyr casgliadau

Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r wybodaeth y bydd yn ofynnol i gasglwyr ei chyflwyno pan wneir cais am gymhwyster i gasglu, yr amddiffynfeydd sylfaenol angenrheidiol i ddiogelu enillion y casgliad, sut y gall trefnwyr casgliadau sicrhau bod casglwyr yn addas a phriodol a chadw cofnodion a monitro gan awdurdodau lleol.

Dylai'r system arfaethedig:

- gynyddu hyder y cyhoedd a'u hymddiriedaeth mewn casgliadau elusennol cyhoeddus.
  *A ydych chi'n ystyried y bydd y cynllun newydd arfaethedig yn cael yr effaith a ddymunir?*

- dorri'r baich gweinyddol a gysylltir gyda nifer o ofynion trwyddedu ar gyfer trefnwyr casgliadau posibl ac awdurdodau lleol gan y bydd yr angen i ymgeisio am drwydded unigol i bob awdurdod lleol lle bydd casgliadau yn digwydd yn cael ei ddisodli gan y cynnig 'awdurdod arweiniol' arfaethedig.
  *Pa amcangyfrifon sydd gennych o'r arbediadau a all ddigwydd i elusennau ac awdurdodau lleol neu a ydych yn rhagweld y bydd mwy o gostau/beichiau?*
- wneud y system yn haws i hyrwyddwyr a hyrwyddwyr posibl ei deall ac felly annog gweithgaredd casglu cyfreithlon trwy ymagwedd gyson tuag at reoleiddio casgliadau elusennol.
- helpu awdurdodau lleol, yr heddlu a'r Comisiwn Elusennau i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ymdrin â chodi arian ffug trwy drwyddedu cyson.
- leihau'r baich gweinyddol i'r rhai sy'n trefnu casgliadau bychain ad hoc fel canu carolau neu apêl ddigymell unwaith ac am byth yn y stryd. Ar hyn o bryd, rhaid i weithgaredd o'r fath gael ei drwyddedu gan nad oes eithriad lleol ar gael yn awr ar gyfer casgliadau o'r fath yn y stryd yn yr un modd ag y mae ar gyfer casgliadau o dŷ i dŷ.
- leihau'r baich gweinyddol i gyrff gan y bydd y dewis o enwebu 'prif awdurdod' ar gael i bawb sy'n dymuno casglu yn ardal mwy nag un awdurdod lleol.
- leihau'r baich gweinyddol cyffredinol y mae trwyddedu yn ei osod ar awdurdodau lleol am na fydd gwiriadau cymhwyster yn cael eu dyblygu oherwydd y cynnig i greu 'prif awdurdod'.
- leihau'r amser y mae awdurdodau lleol unigol yn ei dreulio ar weinyddu'r cynllun trwy fwy o eglurder ar rai materion/cwestiynau y mae awdurdodau lleol yn eu cael yn anodd.
  *Faint o amser y mae adrannau trwyddedu yn ei dreulio ar waith trwyddedu casgliadau elusennol yn awr? Faint o amser y rhagwelir y bydd y cynllun newydd yn ei olygu? A allwch drosi hyn yn gost neu arbediad ychwanegol?*
- leihau'r baich gweinyddol ar gyrff codi arian proffesiynol sy'n rhedeg casgliadau ar y stryd ar ran elusennau a chyrff gwirfoddol eraill gan na fydd yn ofynnol iddynt bellach roi adroddiad i'r awdurdod lleol am bob casgliad. Efallai, oherwydd natur y casgliad, e.e. debyd uniongyrchol, na ellir rhoi cyfrif clir a gall fod yn ofynnol i drefnwyr baratoi a chyflwyno amcangyfrifon blynyddol a/neu adroddiadau yn rhoi manylion y costau a'r enillion o'u gweithgaredd casglu.
  *Faint o arbediad a gredwch fydd hyn ar gyfer cyrff codi arian mewn amser ac mewn arian?*
- leihau'r baich gweinyddol ar elusennau sy'n rhedeg casgliadau cyhoeddus elusennol gan na fydd yn ofynnol iddynt bellach gyflwyno adroddiadau ar weithgaredd casglu i awdurdodau lleol. Ond fel arfer da dylent gadw cyfrifon manwl o'u gweithgaredd casglu y gallai'r awdurdod lleol ofyn amdano petai pryder yn codi.
  *Faint o arbediad y credir fydd hyn i elusennau o ran amser ac arian?*
- leihau'n sylweddol y baich ar awdurdodau lleol wrth asesu adroddiadau.
  *Faint o arbediad y credlir y bydd hyn i awdurdodau lleol o ran amser ac arian? Beth yw'r manteision/anfanteision wrth i'r adroddiadau gael eu hystyried gan yr awdurdodau lleol? Ar gyfartaledd a ydych yn cytuno na ddylid gwneud adroddiadau ac na ddylent gael eu hystyried gan awdurdodau lleol?*

### Y sectorau busnes yr effeithir arnynt

Ar y sector elusennol yn bennaf y bydd safoni'r system drwyddedu ar gyfer codi arian elusennol yn cael effaith. Y sectorau eilaidd yr effeithir arnynt fydd y codwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol sy'n casglu dillad/nwyddau tŷ ar gyfer eu hail ddosbarthu a/neu eu hailgylchu lle bydd cyfran o'r enillion yn mynd at elusen.

Bydd busnesau'n croesawu rheolaeth fwy effeithiol, y mae rhai ohonynt yn cwyno bod gorlwytho casglwyr wyneb yn wyneb yn cael effaith niweidiol ar eu busnesau.

### Materion o gyfartaledd a thegwch

Amcan y cynllun trwyddedu awdurdod lleol newydd ar gyfer casgliadau elusennol cyhoeddus yw cywiro'r ddeddfwriaeth anghyson, hen ffasiwn a diangen o gymhleth sy'n rheoli casgliadau o'r fath. Y nod yw creu system deg a chost-effeithiol i ddisodli'r system bresennol.
*A ydych yn cytuno â'r amcan hwn ac a yw'r ffordd ymlaen a awgrymir yn addas ar gyfer cyflawni'r amcan hwn?*

## 5. Costau i fusnesau, elusennau a chyrff gwirfoddol

## (i) Costau cydymffurfio

Dewis 1: Dim costau ychwanegol.

*Faint mae yn ei gostio i elusennau a chyrff codi arian gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol?*
*Faint mae diffyg deddfwriaeth fodern, addas i'r diben yn ei gostio i elusennau ac awdurdodau lleol bob blwyddyn?*

Dewis 2: Tebygol o greu costau ychwanegol sylweddol i'r sector.
Byddai'n rhaid i unrhyw hunan-reoleiddio gael ei ariannu trwy yr hyn fyddai'n cyfateb mewn gwirionedd i dreth ar gyfraniadau a gall arwain at fwy o golledion mewn incwm yn gyffredinol trwy gynnydd mewn codi arian ffug ac arfer gwael.

Dewis 3: Bydd cost ymgyfarwyddo â gofynion y cynllun trwyddedu newydd. Efallai y bydd mwy o gostau gweinyddol hefyd i gyrff a reoleiddir mewn perthynas â gwneud cais am drwyddedau ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn gofyn am drwydded ar hyn o bryd e.e. codi arian wyneb yn wyneb (gofyn am ymrwymiadau debyd uniongyrchol i roi i elusennau'n gyson) a chasgliadau cyhoeddus ar eiddo preifat y mae gan y cyhoedd fynediad dirwystr iddo. Bydd y costau'n amrywio gan ddibynnu ar natur a graddfa'r gweithgaredd casglu oherwydd y gofyniad am gysylltu gydag awdurdodau lleol unigol am safleoedd a dyddiadau casglu. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn cyffwrdd ar godi ffi safonol am drwyddedau ond y bwriad yw cadw'r sefyllfa bresennol o beidio codi tâl am drwyddedau.

*Faint o wariant ychwanegol y mae cyrff yn ei ragweld y byddant yn ei ddwyn trwy gydymffurfio â'r system drwyddedu newydd arfaethedig?*
*Faint o gyrff y credir y bydd y cynllun trwyddedu arfaethedig yn effeithio arnynt?*

Bydd raid i'r 43 corff sydd yn awr yn dal Gorchmynion Eithrio'r Swyddfa Gartref ar gyfer casgliadau o dŷ i dŷ ledled Cymru a Lloegr addasu eu polisïau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r system newydd gan y bydd Gorchmynion Eithrio'r Swyddfa Gartref yn cael eu diddymu.

*Faint y mae cyrff sy'n dal Gorchymyn Eithrio yn ei gredu y bydd y bwriad i ddiddymu'r system gyfredol yn ei gostio iddynt hwy?*

Bydd yn ofynnol i drefnwyr casgliadau bychain lleol fel canu carolau neu apêl leol i fyrfyfyr roi gwybod i'r awdurdod lleol am y gweithgaredd a chael eu caniatâd. Bydd caniatâd yn hytrach na chais ffurfiol am drwydded, yn gadael i'r awdurdod lleol wybod natur a lleoliad casgliad o'r fath. Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i drefnwyr casgliadau o'r fath gael caniatâd tebyg gan yr heddlu lleol felly dylai cost trosglwyddo'r swyddogaeth hon i'r awdurdod lleol fod yn fychan iawn i drefnwyr.

## (ii) Costau eraill

Bydd cost i awdurdodau lleol o ran ymgyfarwyddo â gofynion y cynllun trwyddedu newydd – amser staff wrth ddatblygu polisïau a gweithdrefnau newydd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r system newydd.

*Faint y mae awdurdodau lleol yn credu y bydd yn ei gostio i'w staff ymgyfarwyddo â'r system newydd?*

Bydd cynnydd yn nifer y ceisiadau trwyddedu oherwydd y gofyn i drwyddedu casgliadau ar y stryd, gan gynnwys codi arian wyneb yn wyneb, a chasgliadau o dŷ i dŷ oherwydd na fydd Gorchmynion Eithrio'r Swyddfa Gartref yn bodoli rhagor. Bydd casgliadau ar eiddo preifat y mae gan y cyhoedd hawl mynediad dirwystr iddo hefyd yn cael eu trwyddedu am y tro cyntaf a bydd yn ofynnol cael caniatâd yr awdurdod lleol ar gyfer casgliadau bychain lleol er bod y mwyafrif o drefnwyr sy'n chwilio am eithriad yn cysylltu â'u hawdurdod lleol yn y lle cyntaf a dylai'r baich fod yn fychan iawn. Ond, bydd yr effaith ar wahanol awdurdodau lleol yn amrywio.

*Faint y mae awdurdodau lleol yn rhagweld y bydd yn ei gostio i weinyddu'r system newydd? Faint o faich newydd yr ystyrir fydd y gofynion newydd ar adnoddau?*

Bydd cyrff codi arian yn medru enwebu 'prif awdurdod' o blith y rhai y byddant yn dymuno codi arian yn eu hardaloedd. Dylai hyn rannu'r baich. Ond mae hyn yn ei gwneud yn anodd i amcangyfrif y gost i awdurdod lleol penodol.

*Faint y mae awdurdodau lleol yn credu y bydd yn ei gostio? Beth yw manteision/anfanteision canfyddedig y system newydd arfaethedig?*

Ni fydd cyrff codi arian bellach yn gorfod rhoi adroddiad i bob awdurdod lleol ar bob casgliad a drefnir ganddynt. Dylent gadw cyfrifon manwl o weithgaredd casglu at eu defnydd eu hunain ac fel mater o ymarfer da a dylai'r awdurdod lleol fedru gofyn am gael gweld y rhain i'w harchwilio pe byddai pryderon yn codi.

*Faint o arbediad fydd hyn i awdurdodau lleol?*

Y byddai'r gofyn i drwyddedu yn cymell pobl i beidio ymwneud â gweithgaredd codi arian ar raddfa fechan ad hoc sy'n creu risg isel, e.e. canu carolau neu apêl leol unwaith ac am byth ddigymell.

*A fyddai hyn yn wir?*

### (iii) Costau i fusnes nodweddiadol

Bydd safoni'r system drwyddedu ar gyfer codi arian elusennol yn effeithio'n bennaf ar y sector elusennol a'r codwyr arian proffesiynol a'r cyfranogwyr masnachol y mae ganddynt gytundebau â hwy. Mae'n anelu at greu system deg a chost-effeithiol o drwyddedu pob casgliad cyhoeddus elusennol.

## 6. Ymgynghori â busnesau bach: y "Prawf Litmws"

Rydym wedi trafod gyda thri busnes, y mae'r Gwasanaeth Busnesau Bach yn fodlon eu bod yn cynrychioli croestoriad o fusnesau bach ar gyfer dibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, i gadarnhau na fyddai dim o fewn yr argymhellion hyn yn faich iddynt hwy. Dywedasant y byddent yn croesawu rheolaeth gliriach ar godi arian elusennol oherwydd eu pryderon am gasglwyr sy'n gosod eu hunain y tu allan i'w mannau adwerthu ac yn cael effaith negyddol ar eu masnach. Ategwyd y farn honno gan gyflwyniadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan fusnesau bach eraill.

## 7. Asesiad Cystadleuaeth

Rydym wedi defnyddio'r prawf hidlo cystadleuaeth yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Fasnachu Teg ar gyfer asesu cystadleuaeth. Wrth wneud hynny rydym wedi ystyried effaith y fframwaith rheoleiddiol arfaethedig ar draws y sectorau busnes yng Nghymru a Lloegr.

Bydd yr argymhelliad yn cael effaith yn bennaf ar y sector elusennau. Ar hyn o bryd, nid ydym yn disgwyl y bydd yr argymhelliad yn cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth mewn unrhyw sector masnachol cysylltiedig.

*Byddem yn croesawu barn budd-ddeiliaid ar y casgliad hwn.*

Tra bod elusennau yn cystadlu gyda'i gilydd am refeniw gan y cyhoedd yn yr ystyr 'draddodiadol' i'r gair cystadlu, mae'r gystadleuaeth honno, gellid dadlau, yn wahanol i'r un rhwng busnesau masnachol sy'n cystadlu ar enillion a gwasanaethau. Y ffurf olaf hon ar gystadleuaeth y mae'r hidlen gystadleuaeth yn ceisio ei bennu wrth ystyried cyfran o'r farchnad, rhwystrau mynediad ac a yw effaith cynnig yn gymesur i faint y busnes.

## 8. Gorfodi a Sancsiynau

Awdurdodau Lleol fydd yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun trwyddedu newydd unedig, ond bydd y Swyddfa Gartref yn darparu cyfarwyddyd clir ar sut y dylai gael ei weithredu. Bydd y cyfarwyddyd yn cael ei gyhoeddi a bydd felly ar gael i elusennau.

Mae cynrychiolydd o Fforwm Trwyddedu Llywodraeth Leol ar y Grŵp Ymgynghorol Codi Arian a sefydlwyd gan y Swyddfa Gartref i ystyried y mater hwn.

Gan ei bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol ar hyn o bryd drwyddedu casgliadau o dŷ i dŷ a bod ganddynt y grym (ond nid y ddyletswydd) i greu cynlluniau trwyddedu ar gyfer casgliadau ar y stryd, dylai cost ychwanegol gweinyddu'r cynllun unedig fod yn fychan iawn i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd amcangyfrifir bod 80% o'r 410 awdurdod trwyddedu lleol â rheoliadau casglu ar y stryd yn eu lle. Yn wir, mewn rhai awdurdodau lleol, lle mae dryswch am weithredu'r cynllun presennol, fe all cyflwyno cynllun unedig fod yn fwy cost-effeithiol. Ond, fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, rydym yn gofyn i awdurdodau lleol roi amcangyfrif o'r costau ychwanegol y byddent yn eu tynnu wrth sefydlu a gweinyddu'r cynllun.

Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn gosod sancsiynau am beidio â chydymffurfio – mae'r sancsiynau yn adeiladu ar y rhai a ddarparwyd yn barod gan Ddeddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939 a Rhan III o Ddeddf Elusennau 1992,1 gan eithrio (VI) isod, a fyddai'n drosedd newydd.

Y troseddau a'r cosbau cysylltiedig yw:

(i). Trefnu casgliad heb drwydded/caniatâd gan yr awdurdod lleol (Adran 1(2) o Ddeddf 1939 ac Adran 66 o Ddeddf 1992).

*Dirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol (uchafswm £5,000).*

(ii). Casglu heb drwydded/caniatâd gan awdurdod lleol (Adran 1(3) o Ddeddf 1939).

*Dirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol (uchafswm £1,000).*

(iii). Defnydd heb awdurdod o ddogfennau/bathodynnau (Adran 5 o Ddeddf 1939 ac Adran 74(1) o Ddeddf 1992).

*Dirwy heb fod yn fwy na lefel 5 (uchafswm £5,000).*

(iv). Rhoi gwybodaeth ffug ar gyfer dibenion y Ddeddf (Adran 8(6) o Ddeddf 1939 ac Adran 74(3) o Ddeddf 1992).

*Dirwy heb fod yn fwy na lefel 5 (uchafswm £5,000).*

(v). Torri'r gofynion ar: ddefnyddio bathodynnau ar y ffurf a nodwyd; cyflwyno bathodynnau, tystysgrifau ar gais; peidio caniatáu i bobl dan oedran penodol gasglu (Adran 73(2) a (3) o Ddeddf 1992).

*Dirwy heb fod yn fwy na lefel 2 ar y raddfa safonol (uchafswm £500).*

(vi). Torri'r gofynion ar gadw cofnodion penodol/cyflwyno adroddiadau (mae hwn yn drosedd newydd arfaethedig).

*Dirwy o ddim mwy na lefel 3 ar y raddfa safonol (uchafswm £1,000).*

Byddai cyflwyno cynllun trwyddedu unedig yn mynd ran sylweddol o'r ffordd tuag

1 Ni ddaeth Rhan III o Ddeddf Elusennau 1992 i rym.

at sefydlu gwell arfer codi arian. Ond, darganfu adolygiad yr Uned Strategaeth, pan fyddai cyrff codi arian yn peidio â chydymffurfio â'r system gyfredol bod hynny i raddau helaeth yn deillio o ddiffyg ymwybyddiaeth o'u dyletswyddau. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y byddai o fudd cael un man cyswllt i gael gwybodaeth am ofynion rheoleiddiol codi arian. Argymhellodd, felly, y dylid sefydlu menter hunan-reoleiddio ar sail Côd Ymarfer gwirfoddol newydd a fyddai'n hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o arfer da wrth godi arian. Mae'r Sefydliad Codi Arian wedi noddi prosiect annibynnol i archwilio gwahanol fodelau ar gyfer system o hunan reoleiddio ac i argymell y model orau. Mae'r prosiect yn bwriadu adrodd gyda'i argymhellion erbyn diwedd y flwyddyn.

## 9. Monitro ac Adolygu

Bwriad y Llywodraeth yw i'r Comisiwn Elusennau, gyda chyngor gan Uned Effaith Rheoleiddiol Swyddfa'r Cabinet, fesur effaith rheoleiddio ar elusennau a chyrff eraill nad ydynt yn gweithredu er elw, ei fonitro dros amser, cyhoeddi canlyniadau a thynnu sylw at feysydd lle mae'r rheoleiddio'n ymddangos yn eithafol. Byddai hynny'n cynnwys effaith rheoleiddio ar godi arian.

## 10. Ymgynghori

### (i) Ymgynghori adrannol

Datblygwyd yr argymhellion ar gyfer diwygio ar y cyd â'r Grŵp Ymgynghorol Codi Arian a sefydlwyd gan y Swyddfa Gartref. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Comisiwn Elusennau, y Swyddfa Gartref, y Sefydliad Codi Arian, y Cyngor Cenedlaethol dros Gyrff Gwirfoddol, Awdurdod Rheoleiddio Codi Arian Cyhoeddus, Cymdeithas Cyfraith Elusen, y Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Fforwm Trwyddedu Llywodraeth Leol. Rydym hefyd wedi bod mewn cyswllt â Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Adran Faterion Cyfansoddiadol.

### (ii) Ymgynghori Cyhoeddus

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymgynghori ag elusennau a chyrff eraill nad ydynt yn gweithredu er elw, awdurdodau lleol ac eraill y mae rheoleiddio ar gasgliadau cyhoeddus elusennol yn effeithio arnynt. Bydd y ddogfen ymgynghorol hon yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Swyddfa Gartref a bydd copïau ohoni yn cael eu hanfon i gynrychiolwyr y sector gwirfoddol yn ogystal ag awdurdodau lleol. Bydd y ddogfen yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg a bydd copïau yn cael eu hanfon i'r Cynulliad Cenedlaethol i'w dosbarthu.

Bwriedir cynnal chwe digwyddiad ymgynghori o leiaf – yn Llundain, Taunton, Caergrawnt, Manceinion, Newcastle a Chymru. Bydd y rhain o gymorth i sicrhau bod y cynigion yn cael eu dwyn i sylw grŵp eang o gyrff sydd â diddordeb ynddynt.

## 11. Crynodeb ac argymhelliad

Dewis 3 sy'n cynnig y manteision mwyaf i elusennau ac awdurdodau lleol. Mae'n adeiladu ar y ddarpariaeth gyfredol, ond yn ei symleiddio a'i rhesymoli i gynnig cynllun unedig, a ddylai fod yn haws ei ddeall na'r system gyfredol. Dylai hefyd fod yn fwy cyson ac felly'n decach na'r drefn gyfredol.

Mae hefyd yn gwneud y mwyaf o'r manteision i fusnesau bach o ran eu pryderon am godi arian eithafol. Byddai'r cynllun trwyddedu newydd ar gyfer casgliadau cyhoeddus, gan gynnwys codi arian wyneb yn wyneb, yn atal apeliadau eithafol ac yn atal niwsans i'r cyhoedd.

Dewis 3 sy'n cynrychioli argymhelliad y Swyddfa Gartref ar y cyd gyda'r gweithgor ar gasgliadau cyhoeddus, a sefydlwyd i edrych yn benodol ar drwyddedu casgliadau cyhoeddus elusennol. Nod yr ymarfer ymgynghori yw ffurfio'r manylion ymarferol ar gyfer y cynllun trwyddedu newydd.

## Man cyswllt

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am yr asesiad hwn neu'r ddeddfwriaeth arfaethedig at:

Helen Morgan
Charities Unit
3rd Floor
Allington Towers
19 Allington Street
London SW1E 5EB
Ffôn: 202 7035 5355
E-bost: helenc.morgan@homeoffice.gsi.gov.uk